# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 572 · **Chwefror 2026** · £1

## Vallée d'Ogwen

Wedi bwrlwm y Nadolig ddod i ben, mi gyrhaeddodd yr eira mawr ar y 4ydd yn dra annisgwyl.

Roedd hi'n amlwg o'r edrychiad cyntaf ar drwch yr eira nad oedd fawr o symud yn y pentref yn ei sgil, a'n wir, toedd prin ddim hoel teiars o fewn yr eira ar yr A5. Am gyfnod byr, trawsnewidiwyd Bethesda yn bentref alpaidd gyda rhai golygfeydd anarferol - unigolion wedi sgio o'r Gerlan at siopa'r pentre a thanc Americanaidd M29 *Weasel* yn danfon trigolion o amgylch y pentref i enwi rhai.

Nid pob dydd y gwelwn danc yn teithio ar hyd strydoedd Bethesda, a'n sicr nid tanc 80 mlwydd oed Americanaidd.

Er mai yn America cynhyrchwyd yr M29 *Weasel*, dyluniwyd y peiriant ei hun gan Geoffrey Pyke o Brydain, at ddiben teithio drwy eira Norwy yn ystod ymgyrchoedd yr Ail Ryfel Byd.


Perchennog yr *Weasel* penodol yma yw Mr. Andrew Singleton, ddaru ei brynu yn 2008 a threulio'r blynyddoedd wedyn yn ei adfer. Roedd hynny'n ffrwyth llafur yn ei hun - gan bu rhaid teithio i'r cyfandir os oedd angen newid unrhyw gyfarpar ar y peiriant.

Er ei fod wedi arddangos y peiriant mewn ambell i sioe, dyma'r tro cyntaf iddo flasu'r profiad o ddefnyddio'r peiriant yn yr amgylchedd a ddyluniwyd y cerbyd ar ei gyfer.

Cafodd ambell i unigolyn lwcus gyfle i deithio yng nghefn y cerbyd o amgylch y pentref, a chwpwl o Ben Llŷn y cynnig i deithio i Lyn Ogwen ynddo!

Ymlaen i weddill 2026!









# Llais Ogwan

## Rhif 572
## Chwefror 2026

**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**
**CADEIRYDD**
Carwyn Meredydd
carwynian@hotmail.com

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Owain Evans.**

Y golygydd ym mis **Mawrth** fydd
Catrin Wager, Tŷ Mawr, Ffordd Coetmor,
Bethesda, LL57 3NF.
07366 418318
E-bost: catrinwager@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 28 Chwefror** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu Nos Iau, 19 Mawrth yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £15 | Dr. Elwyn Hughes, Ystradgynlais. |
| £20 | John Ffrancon Davies, Windsor. |
| £20 | Er cof annwyl am Elwyn Roberts a Janice Thomas oddi wrth Eileen, Keith a'r teulu. |
| £20 | Er cof am Emyr Roberts oddi wrth Margaret a'r teulu. |
| £10 | Gwyneth Morris, Gerlan. |
| £9 | Deri a Megan Tomos, Llanllechid. |
| £20 | Er cof annwyl am Eirlys Roberts, Cilfodan, fu farw 10.02.2016. Priod, mam a nain annwyl. Oddi wrth Vic a'r teulu. |

***Diolch yn fawr***

## Dyddiadur y Dyffryn

**Chwefror**
22 Caffi Trwsio Caban Gerlan. 11.00 – 1.00.
23 Grŵp Gwnio Caban. Caban Gerlan. 6.30 – 8.30yh.
23 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
24 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
28 Bore Coffi Gŵyl Ddewi Plaid Cymru. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00.

**Mawrth**
09 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
09 Grŵp Gwau a Gwaith Nodwydd. Caban Gerlan. 6.30 – 8.30yh.
09 Cymd. Hanes D. Ogwen. Lowri Wiliams. Festri Jerusalem am 7.00
10 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
12 Y Gymdeithas. Pedwarawd. Festri Jerusalem am 7.00.
16 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
19 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
23 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
24 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
31 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
31 Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Chwefror**

| | |
|---|---|
| £30 | (111) Gwen Davies, Tanysgafell Isaf. |
| £20 | (178) Ann Jones, Rachub. |
| £10 | (142) Lowri Williams, Caernarfon. |
| £5 | (5) D. Alun Davies, Bethesda. |

***Diolch yn fawr***

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

***Newyddion Mawrth i'w dderbyn erbyn 29 Chwefror. Dyddiad cyhoeddi 19 Mawrth.***



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

# DJ Dawnus Llanllechid




Yn ddim ond 11 oed, mae'r DJ a chynhyrchydd cerddoriaeth electronig Gymreig, Efan Electro, yn mynd o nerth i nerth wedi iddo ryddhau ei sengl newydd "*Stronger*", sydd yn nodi carreg filltir bwysig yng ngyrfa un o artistiaid electronig ieuengaf ag amlycaf y Deyrnas Unedig.

Mae Efan, sydd wedi ei fagu yn Llanllechid, wedi bod yn prysur adeiladu ei enw'n raddol drwy gyfuniad o waith stiwdio, perfformiadau byw, darllediadau radio/teledu a phrosiectau creadigol dan arweiniad y gymuned.

Mae *Stronger* yn ddatblygiad clir ymlaen o ran hyder ac aeddfedrwydd cerddorol, wrth gyflwyno trac electronig modern llawn egni, eglurder ac ysbrydoliaeth emosiynol i gynulleidfa eang o gariadon cerddoriaeth ddawns.

Cyn ei ryddhau'n swyddogol, cafodd *Stronger* gefnogaeth gynnar sylweddol wedi'r cyflwynydd Adam Walton chwarae'r trac ar raglen o'r gyfres *BBC Introducing*, sef cyfres o sioeau a roddai blatfform i gerddorion ifanc talentog gyflwyno ei gwaith i gynulleidfa ehangach. Nid ar chwarae bach y caiff cerddorion gyfle i berfformio ar y rhaglen.

Golygai hefyd mai Efan yw'r Cynhyrchydd Ieuengaf i gael ei waith wedi ei ddarlledu ar y sioe - ffaith a amlygai ansawdd y cynhyrchiad.

Dywedodd Efan: "Roeddwn wrth fy modd cael perfformio ar *BBC Introducing* — toeddwn i byth yn meddwl y byddai'n digwydd yn fy oed i. Mae'n teimlo'n anhygoel gweld y gân yn cael ei rhyddhau o'r diwedd, ac mae wedi rhoi hwb mawr i'm hyder i ryddhau mwy o gerddoriaeth yn y dyfodol."

Daw llwyddiant y sengl yn fuan wedi darllediad o raglen ddogfen ddiweddar a ddilynai taith Efan fel artist electronig ifanc, a ddarlledwyd ar *BBC iPlayer*, yn ogystal â sianel YouTube S4C.

Mae'r rhaglen ddogfen yn cynnig cipolwg prin ar ddatblygiad *DJ* ifanc sy'n llywio'r byd cerddoriaeth broffesiynol, wrth gadw'r cydbwysedd rhwng yr ysgol, sesiynau stiwdio, ymarferion a chyfleoedd perfformio byw a'r heriau a ddaw yn sgil hynny.

Fel rhan o'r rhaglen, dilynnwn Efan wrth iddo berfformio ei set *DJ* yng ngŵyl 'Kendal Calling', nid ar chwarae bach y mae unrhyw gerddor yn derbyn gwahoddiad i berfformio ar lwyfan yn yr ŵyl hon - a Efan wedi ei dderbyn yn 11 oed! Perfformiodd ei set ar lwyfan enwog Bwyty Tim Peaks, ychydig cyn i'r band Indie Rock o Wrecsam, *The Royston Club*, berfformio eu set annisgwyl yn y bwyty.

Cawn gip ar y rhaglen wrth i Efan gyfarfod yr arloeswr cerddoriaeth electronig, *Fatboy Slim*, yn annisgwyl tu cefn i'r llwyfan - tanlinellai'r cyfarfod y cysylltiad pwerus rhwng y cenedlaethau o fewn y diwylliant cerddoriaeth ddawns, a pha mor groesawgar yw'r maes electronig i leisiau newydd.

Ynghyd â rhyddhau ei gerddoriaeth ei hun, mae Efan wedi bod yn treulio amser yn cyd-weithio'n agos gyda stiwdio *Letters Grow*, gofod creadigol ar lawr gwlad sy'n cefnogi pobl ifanc drwy gerddoriaeth â'r cyfryngau. Fel rhan o'r cydweithrediad hwn, daeth y stiwdio a Efan yn rhan o brosiect dan arweiniad y gymuned i gynhyrchu trac ar gyfer Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru.

Mae *Stronger* bellach ar gael ar *Spotify*, *Apple Music* a mwyafrif o blatfformau ffrydio.
Pob lwc i ti Efan!



## Adroddiad Cyngor Llanllechid

Cynhelwyd cyfarfod Ionawr ar yr 8fed o Ionawr 2026. Adolygwyd gwariant y flwyddyn 2025-26, a rhagfynegiadau gwariant 2026-27 a phenderfynwyd codi'r praesept o 2%.

**Diweddariad Cae Cymunedol Talybont**
Mae cam cyntaf y gwaith nawr wedi ei gwblhau. Hoffem ddiolch i Gyngor Gwynedd am ariannu'r cam yma o'r prosiect drwy grant 'Gwynedd Ni'. Ni fyddai wedi bod yn bosib cychwyn y prosiect heb arian o'r gronfa yma.

Byddwn yn cynnal cyfarfod cymunedol yn fuan i drafod datblygiadau'r cae. Y bwriad wedi hynny yw cwblhau cais am nawdd o gronfa gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Bydd toriadau cae pêl-droed Talybont yn ail gychwyn yn fuan, os oes ganddoch ddiddordeb mewn gwirfoddoli, cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org


**CHRIS GRIFFITHS CYF**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



**18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB**

**☎ 01248 713 369
neu 07813 455653**

**Mark Davies**
07447804110

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans

Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

**mark@mdcaravans.cymru**
MCEA

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development

**Ystyried dysgu rhywbeth newydd?**
- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus

**Cysylltwch!**
cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875
https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

# Ail Rhyfel Y Boer 1899-1902

### Gan **Andre Lomozik**

Cyfres o wrthdaro yn De Affrica rhwng yr Ymerodraeth Brydeinig a'r Weriniaeth Boer yn y Transvaal a'r *Orange Free State* oedd Rhyfel y Boer, yn fwyaf nodedig rhwng 1899 a 1902. Bu i un o'r enw Winston Churchill, a ddaeth yn fyd enwog yn ddiweddarach, fel arweinydd Prydain Fawr yn ystod yr Ail Rhyfel Byd yno fel gohebydd rhyfeloedd. Cafodd ei ddal a bu yn garcharor am fis cyn dianc ag ail ymuno a byddin Prydain. Bu'r ymladd yn ffyrnig a chreulon, a bu i tua 100,000 o bobl farw yn ystod y rhyfel, 20 mil o filwyr Prydain a 14 mil o filwyr y Boer. Nid oes cofnod llawn o faint o drigolion brodorol Affrica fu farw ond mae'n debyg i filoedd cael ei lladd. Yr adeg yma ffurfiwyd gwersylloedd carchar gan Brydain. Dyma lle mae'r gair "*Concentration camp*" yn deillio. Bu i 115,000 o bobl gael eu rhoi yn y gwersylloedd yma a bu o leiaf 26,000 farw ynddynt, o newyn a chlefyd, y rhan fwyaf ohonynt yn ferched a phlant.

Efallai beth sydd ddim mor gyfarwydd i ddarllenwyr y Llais, ydi fod un o'r ardal yma wedi bod yn ymladd yn y rhyfel. Anfonodd lythyr adref i'w fam dyddiedig Rhagfyr 21ain 1899, ac ymddangosodd y llythyr yn y papur Gwalia, dydd Mawrth, 30ain Ionawr 1900.



**Gwisg Milwr Ffiwsiliwr Brenhinol Cymru yn ystod rhyfel y Boer 1899 - 1902**

## LLYTHYR ODDIWRTH GYMRO O FAES Y RHYFEL

Dyma fel yr ysgrifennai Private Caradog Jones, 5839, E Company, Royal Welsh Fusiliers, at ei fam yn Caellwyngrydd (Bethesda): "*Rhagfyr 21ain, 1899. Ychydig linellau gan obeithio eich bod oll yn iach, fel y mae yn fy ngadael innau yn bresennol. Mae'n debyg eich bod yn awyddus i wybod pa le yr ydwyf. Yr wyf wedi cyrhaedd Affrica ers mis yn ôl, cawsom fordaith dda drosodd yma: glaniasom yn Durban, ac oddiyno anfonwyd ni i Mooi River am wythnos, ac oddiyno i Estcourt, lle yr arhosasom am dri diwrnod. Yna anfonwyd ni i Chiveley, lle tair milldir o Colenso. Mae'n debyg eich bod wedi gweld enwau yr oll o'r lleoedd yma yn y papurau. Un diwrnod cawsom orchymyn i symud o Chieveley i Colenso, lle yr oedd y Bweriaid. Ar ôl cyrhaedd yno agorodd y Bweriaid dân arnom, ac yna cymerodd brwydr fawr le, a chollodd ein hochr ni mil cant, a saith a deugain (1147) rhwng lladdedigion, clwyfedigion, a charcharorion; collasom hefyd wyth o fagnelau. Parhaodd y frwydr am wyth awr, o dan haul tanboeth, ac yna cawsom orchymyn i encilio i'n gwersyll ein hunain. Ni chollodd ein cartrawd ni ond tri o ddynion wedi ei clwyfo. Yr ydym yn awr yn aros am ragor o adgyfnerthion, ac yna fe wnawn ruthr arall arnynt, a'r tro nesaf yr ydwyf yn gobeithio y cawn y gorau arnynt. Yr wyf yn leicio yn iawn yma, ac y mae yr holl fyddin mewn ysbrydoedd da. Nid oes genym ond un peth i gwyno yn ei gylch, a hynny ydyw y dwfr sydd yma. Y mae yn rhaid i ni gerdded pedair milldir cyn cawn ddwfr i'w yfed, ac ni fuasai ceffyl yn edrych arno yn Nghymru. Y mae yn bur boeth yma. Nid oes gennyf ragor o newyddion yn bresennol. Yr wyf yn gobeithio y cewch Nadolig llawen a blwyddyn newydd gysurus. Gobeithiaf y caf ddyfod yn ôl i Gymru yn ddyogel ac iach, ac yna caf ddweyd yr oll hanes y rhyfel. Felly terfynaf gyda'm cariad gorau at yr holl deulu. – Oddiwrth eich anwyl fab, CARADOG*"

Ganwyd Caradog ar y 12fed o Fai 1880, yn fab i Jane Jones, 10 Caegroes, Llanllechid.

Ar gyfrifiad 1881 cawn y wybodaeth yma.

Griffith Jones 51 Penteulu, Ellen 44 Gwraig, Jane 22 Merch, Hugh 16 Mab, Catherine 13 Merch, Ellen Jones 10 Merch, William J. 8 Mab, Mary 6 Merch, Anne 3 Merch, Henry Mab, Caradog Jones Wŷr. Roedd yr holl teulu wedi eu geni yn Llanllechid.


Erbyn cyfrifiad 1891 mae Griffith Jones, wedi marw, ond nid oes carreg fedd i'w chanfod iddo yn Eglwys Santes Llechid, yn ôl Arysgrifau Cerrig Coffa Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, er fod Cofnodion Plwyf Llanllechid yn nodi un o'r enw Griffith Jones, wedi marw ar y 10fed o Ionawr 1889 yn 59 mlwydd oed ac wedi ei gladdu yn Eglwys Santes Llechid.

Mae Ellen yn cael ei henwi fel penteulu, a dim ond William G. 18 oed, Anne 13 oed, Henry 10 oed a Caradog 10 oed Wŷr, sydd wedi eu cofnodi ar y cyfrifiad. Roedd Caradog yn De Affrica erbyn cyfrifiad 1901, dim ond Ellen, Hugh, William, a Henry oedd wedi eu cofnodi ar cyfrifiad y flwyddyn yma, roeddynt yn byw yn rhif 9 Maes yr Onnen erbyn hyn, chwarelwyr oedd y tri mab.


Os anfonodd Caradog lythyr arall i'w deulu, ni chyhoeddwyd hwy yn newyddiaduron yr amser.

Rwyf wedi darganfod ychydig mwy o'i hanes, yng nghyfrifon Milwrol, o dan y pennawd Draft, Enlistment and Service. Mae yn ymddangos fod Caradog wedi ymuno a'r fyddin ar y 19eg o Fedi 1898 yn ddeunaw a pum mis oed, lle mae yn nodi mai chwarelwr ydoedd yn ôl ei alwedigaeth, roedd yn 5 troedfedd a phedair modfedd a hanner o daldra gyda gwallt tywodliw (sandy) ac yn aelod o eglwys Lloegr.

Mae'n goroesi y rhyfel ac yn dychwelyd yn ôl i Brydain ac yna yn cael ei drosglwyddo i Adran y Milwyr wrth Gefn ar y 30ain o Hydref 1905, ar ôl gwasanaethu am saith mlynedd a pedwar deg dau o ddyddiau, yn y fyddin. Ar dudalen arall o dan *Name and Address of next of kin*, mae enw ei fam Ellen Jones, (Nain)? a'i frodyr William a Henry i'w weld ac yn nodi y medalau a dderbyniodd tra yn gwasanaethu yn De Affrica. "*South Africa Medal with Clasps Cape Colony. Transval, Tugela Heighs, Ladysmith, Orange Free State.*"Ar yr un tudalen mae'r sylw yma wedi ei ysgrifennu, *DIED 19 – 9 – 09* yn 29 oed, ond nid oes mwy o wybodaeth ar y dudalen. Rwyf wedi dod yn erbyn wal i ddarganfod mwy o'i hanes. Oes unrhyw un arall o ddarllenwyr y Llais yn cofio am hanes perthynas iddynt yn ymladd yn Rhyfel y Boer?



| No. | When Born, | Name, if any. | Sex. | Name and Surname of Father. | Name and Maiden Surname of Mother. | Rank or Profession of Father. | Signature, Description, and Residence of Informant. | When Registered. | Signature of Registrar. | Baptismal Name if added after Registration of Birth. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 96 | Twelfth May 1880 10 Caegroes Llanllechid | Caradog | Boy | | Jane Jones Domestic Servant | | + The mark of Jane Jones Mother 10 Caegroes | Eighteenth June 1880 | Robt Rees Registrar | |



I, Caradog Jones do solemnly declare that the above answers made by me to the above questions are true, and that I am willing to fulfil the engagements made.

Caradog Jones SIGNATURE OF RECRUIT.

J. Oakley Sergt Major Signature of Witness.

OATH TO BE TAKEN BY RECRUIT ON ATTESTATION.

I, Caradog Jones do make Oath, that I will be faithful and bear true Allegiance to Her Majesty, Her Heirs, and Successors, and that I will, as in duty bound, honestly and faithfully defend Her Majesty, Her Heirs, and Successors, in Person, Crown, and Dignity against all enemies, and will observe and obey all orders of Her Majesty, Her Heirs, and Successors, and of the Generals and Officers set over me. So help me God.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**
mairpenybryn@gmail.com
01248 352966

**Margaret Khan**
Ar 5ed Rhagfyr bu farw Margaret Khan, gynt o Pant Caerhun, ond bellach wedi ymgartrefu yn Acrefair, Wrecsam ers 12 mlynedd. Yr oedd yn ffrind ffyddlon i Nesta a Hefin, Tŷ Capel, a'r teulu ers blynyddoedd maith.

Yn 1971 fe symudodd y teulu i fyw i Pacistan er mwyn dilyn gyrfa ei gŵr a oedd yn ymgynghorydd meddygol. Yn 1991 fe ddaeth y teulu yn ôl i'r hen gartref ym Mhant Caerhun am gyfnod. 'Roedd ganddi feddwl mawr o'i theulu Shazia ac Imran a'i wyrion ac wyresau. Cydymdeimlwn efo chi fel teulu ar adeg mor drist.

**Bingo Bach**
Cynhelir y Bingo nesaf ar 27 Chwefror yn y Ganolfan am 7yh. Bydd yr elw yn mynd at Y Ganolfan. Casglwyd £275 yn y Bingo Nadolig a aeth at elusen Gafael Llaw. Yn ystod 2025 casglwyd £1,736 tuag at elusennau lleol, Ward Padarn (Strôc) Ysbyty Eryri, Cymdeithas Alzheimer's, Ambiwlans Awyr, Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen, Bad Achub Biwmares, Y Ganolfan a Gafael Llaw. Diolch o galon i bawb am eich cyfranniadau hael tuag at y Bingo a phob cefnogaeth dros y flwyddyn.

Dowch draw i'r Bingo nesaf am noson o hwyl a sbri, bydd croeso cynnes yn eich disgwyl!

**Cylch Glasinfryn**
Croesawodd y cadeirydd, Mair Griffiths bawb o'r aelodau i gyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd ar 14eg Ionawr yn y Ganolfan. Braf oedd gweld cynifer dda o aelodau a ymwelwyr wedi mynychu'r cyfarfod.

'Roedd pawb wedi mwynhau'r Cinio Nadolig ym Mhant Du, Penygroes ym mis Rhagfyr. Gwnaed casgliad o £55 at elusen Gafael Llaw. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Mrs. Doreen Meacock am ei anrheg a cherdyn gan y Cylch ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.

Hyfryd oedd cael croesawu Mr. Joe Hughes, Bethesda, atom unwaith eto i roi sgwrs y tro hwn am y posibilrwydd fod cyswllt yn ei Goeden Teulu rhwng ei deulu Rowlands ef ac Abraham Wood, oedd yn Borthmon yng Nghaerwys. Mae Joe wedi olrhain hanes ei deulu i ganol y 18fed ganrif ac maent wedi eu rhestru fel porthmyn yn y cyfrifiad gan aros mewn sawl plwyf o Ogledd Orllewin Cymru drwy Bala, Porthmadog i fyny at Ddyffryn Conwy cyn ymgartrefu ym Mangor ac Ynys Môn yn y 19eg.

Yn ystod y cyfnod yma fe gofnodwyd genedigaeth dros ugain o blant! Fel arfer daeth Joe a llawer o eitemau a dogfennau diddorol i'w dangos. Yn ddiddorol hefyd 'roedd nifer o'r aelodau yn cofio ei berthnasau fu'n byw ym Mangor.

Diolchwyd i Joe am ei sgwrs ddiddorol gan Glenys Morgan.

Margaret Owen a Jean Pierce oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl.

Ar 11eg Chwefror byddwn yn cael ein Cyfarfod Blynyddol i dynnu rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf dros sgwrs, paned a chacen! Yna ar 11 Mawrth byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi gyda Chawl a Brethyn Cartref, fydd yn dechrau am hanner dydd. Mae croeso cynnes iawn i unrhyw un ymuno â ni.

## Y Ganolfan

Mae costau cynnyddol cynnal y Ganolfan, yn enwedig trydan, yn mynd yn faich ar Bwyllgor y Ganolfan. Heblaw am gymorth a haelioni Cyngor Cymuned Pentir buasai yn ddu iawn arnom. Nid yw'r Pwyllgor eisiau codi tâl ffioedd llogi'r Ganolfan yn ormodol er mwyn hybu defnydd o'r neuadd. Mae angen mwy o fudiadau i ddefnyddio'r Ganolfan gan nad yw ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial. Mae'r Ganolfan yn gynnes a hwylus iawn wedi ei garpedu, ac nid yw yn rhy fawr. Mae yna hefyd faes parcio cyfleus. Os hoffech mwy o fanylion am logi'r Ganolfan cysylltwch â Mair (manylion fel uchod).

# Carthenni Enwau Eryri



Yn 2026 bydd arddangosfa arbennig sy'n cofnodi ac yn dathlu cyfoeth enwau tirweddol Eryri trwy gyfrwng y grefft draddodiadol o wehyddu gwlân yn mynd ar daith.

Mae enwau tirweddol hanesyddol yn cipio ysbryd lleoedd, yn sbarduno'r dychymyg ac weithiau'n ail greu'r bywyd beunyddiol, y trafferthion, y brwydrau a gogoniant yr oes a fu.

O fewn chwe charthen wlân unigryw cofnodir a dethlir detholiad o'r cannoedd o enwau tirweddol hanesyddol a gasglwyd mewn sesiynau a gynhaliwyd ar hyd a lled Eryri er mwyn casglu gwybodaeth am enwau tirweddol gan drigolion.

Dyluniwyd y carthenni gan y gwehydd a'r dylunydd tecstiliau, Anna Pritchard. Mae pob carthen wedi ei briodoli i ardal benodol o Eryri, a phob un â'i ddyluniad unigryw ei hun yn adlewyrchu rhai o nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny.

Arbenigodd Anna mewn gwehyddu ym Mhrifysgol Manceinion gan feistroli'r grefft ymhellach dan adain gwehyddion blaenllaw. O'i stiwdio fechan sy'n edrych draw am y Carneddau, mae'n dylunio tecstilau cyfoes ar gyfer y cartref a ysbrydolwyd gan siapiau a gwrthrychau cyfarwydd sy'n rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol. Bydd lliwiau byd natur o'i chwmpas yn arbennig yn tanio ei dychymyg, ac o hynny y bydd ei dyluniadau'n datblygu.

Comisiynwyd y carthenni gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel rhan o'i waith ehangach o gasglu a chofnodi enwau tirweddol o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol er mwyn eu dathlu a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n ei wneud i ddathlu a diogelu enwau tirweddol Eryri ar wefan yr Awdurdod Diogelu Enwau Tirweddol Hanesyddol | Parc Cenedlaethol Eryri

Bydd y carthenni'n cael eu harddangos yn Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog o fis Ionawr tan y 15fed o Fawrth, Oriel Grefft Rhuthun Gorffennaf 4ydd Medi 13, ac yna yn oriel MOMA, Machynlleth o Fedi 19 tan Tachwedd 14.



## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Genedigaeth**
Ganed merch fach, Neli Gwen, i Sara Catrin a Luke, Bro Derfel, Tregarth, chwaer fach fendigedig i Cedri.

Llongyfarchiadau i Nain a Taid Tregarth sef Angela a Meirion, Ewythr Morgan, Hen Nain a Taid Mynydd Llandygai a theulu Luke yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu bach.

**Cartref Newydd**
Pob dymuniad da i Julie a David Stokes-Jones a'r merched Beca ac Ela i'w cartref newydd Angorfa, Talgae, yn Nhregarth. Mae'r teulu wedi symud o Ffordd Bangor, Bethesda, a Julie'n dychwelyd i'w phentref genedigol.

Mae rhieni Julie, Sandra ac Adrian Stokes, Ffordd Tanrhiw, wrth eu bodd i gael y teulu yn nes.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Iestyn Siôn Roberts, Fferm Dob, Tregarth, a gafodd ei ddewis i fod yn rhan o dîm Rygbi Gogledd Cymru dan 18 oed. Mae Iestyn yn aelod o Glwb Rygbi Bangor ac yn ddisgybl yn Ysgol Tryfan, Bangor. Llongyfarchiadau Iestyn.

**Profedigaeth**
Daeth tristwch dros yr holl ardal pan glywsom am farwolaeth Fred Buckley, Maes Ogwen, Tregarth; priod y ddiweddar Elizabeth Buckley. Cydymdeimlwn gyda holl deulu a ffrindiau Fred a bydd rhagor o fanylion am ei angladd yn rhifyn Mis Mawrth o'r Llais.

Trist yw cyhoeddi marwolaeth Toni Caffell, Fron Heulog, Sling, bu farw yng Nghartref Gofal Meddyg ym Mhorthmadog ar Ionawr 16, yn 78 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn gyda'i gŵr, Siôn, a'r plant, Anwen a Dylan.

Roedd hefyd yn chwaer i Douglas, Alan a Jack a'n fodryb i Gwenllian, Bethan, Richard a Brian. Yn ôl dymuniad Toni bydd ei hangladd yn breifat.

Daeth y newyddion hefyd am farwolaeth sydyn Gwynedd Morris, Ffordd Tanrhiw, ar ddiwedd mis Ionawr. Cydymdeimlwn gyda theulu Gwynedd yn Nhregarth a Deiniolen. Rhagor o newyddion am ei angladd yn Rhifyn mis Mawrth o'r Llais.

**Er côf am Fred Buckley**
Bowliodd ar lawnt ei balas – dyn y côr
A dawn cân llawn urddas;
Yn hynod ei gymwynas
Cywir lanc yr awyr las.
Dilwyn Owen

**Gair o ddiolch**
Dymuna Einion a Phil Holland a'r holl deulu, ddiolch o galon am bob gair o gydymdeimlad a'r rhoddion ariannol hael a dderbyniwyd er cof yn dilyn marwolaeth eu mam, sef Elinor Holland, Perthi, Tregarth.

**Gwaeledd**
Anfonwn ein cofion ar bawb o'r pentref sydd yn wael mewn ysbytai, adref neu mewn Cartref Gofal gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i bob un ohonoch. Clywsom fod Beryl Jaques a fu mewn ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf bellach ym Mhlas Ogwen, Bethesda. Gobeithio eich bod wedi setlo, Beryl, ac yn hapus ymysg ffrindiau ac yn derbyn y gofal gorau.

Mae tair o Dregarth yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ar hyn o bryd. Y tair yw Valerie Jones, Valwyn, Dob; Mona Jones, Ffordd Tanrhiw a Glenda Jones, Hen Dyrpeg. Dymunwn wellhad buan i'r dair ohonynt.

### Capel Shiloh Newydd

Oedfa am 5 o'r gloch.

| | |
|---|---|
| Chwefror 15 | Dr. Ian Morris |
| Chwefror 22 | Nerys Griffiths, Caernarfon |
| Mawrth 1 | Dr. Alun Morton Thomas, Porthaethwy |
| Mawrth 8 | Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid |
| Mawrth 15 | Eleri Lloyd Jones, Bangor |

Bydd drws Shiloh yn agored fel arfer pob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch i rai a hoffai gwmni, sgwrs, paned a gwers. Croeso i bawb.

Nos Sadwrn, Mawrth 28, yng Nghapel Shiloh Newydd, bydd perfformiad o'r 'Croeshoeliad' o waith y cyfansoddwr John Stainer dan arweiniad Trystan Lewis, a Chôr o ardal Conwy am 5 o'r gloch. Mwy o fanylion yn Rhifyn Mis Mawrth o'r Llais.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Bydd y gangen yn cyfarfod yn Festri Capel Shiloh Newydd am 7.30 Nos Lun, Chwefror 2, lle gawn gwmni'r awdures Angharad Tomos o Benygroes, a thestun ei sgwrs fydd 'Castell Siwgwr'. Yn Mis Mawrth, ar nos Lun cyntaf y mis, bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi. Mwy o fanylion ar gael gan yr ysgrifennydd, Janet Davies, 07762353793.

**Pen-blwydd Arbennig**
Dydd Llun, Chwefror 2, bydd Maisy Jones, Bro Syr Ifor, yn dathlu ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed. Yn anffodus ar hyn o bryd mae Maisy yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor, rydym i gyd yn Nyffryn Ogwen yn dymuno gwellhad buan iddi a'n anfon ein cofion annwylaf ati.


Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01286) 672437 | Pwllheli (01758) 703000)

L. STURRS A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909




# YSGOL TREGARTH

### Ychwanegiad i'r rhifyn diwethaf

Dymunwn fel ysgol ddiolch o galon i Iwan a'r criw yng nghwmni *Jones and Whitehead* am eu cefnogaeth a'u rhodd hael o goed a fu'n help i greu'r llwyfan i'r plant. Rhaid diolch hefyd am eu cefnogaeth ac am fod yn barod eu cymwynas i'r ysgol drwy gydol y flwyddyn.

### Ymweliad PC Tamzin

Cafodd dosbarthiadau Elidir Fach ac Elidir Fawr ymwelydd arbennig ar gychwyn y mis pan ddaeth PC Tamzin atom. Roedd dosbarth Elidir Fach wedi mwynhau cael gwisgo het heddwas a chreu print ôl bys. Bu'n trafod sut i gadw'n ddiogel ar y wê gyda Elidir Fawr. Cyn gadael, cafodd rhai o'r plant drio gwisgo'r cyffion. Diolch am ddod atom PC Tamzin.



### Gwylio Adar

Mae dosbarth Elidir Fawr wedi bod yn dysgu mwy am adar yn ddiweddar ac wedi cymryd rhan yn ymgyrch y RSPB i wylio adar yn yr ardd. Mae'r plant wedi paratoi bwyd i'r adar a'u gosod o gwmpas cae a gardd yr ysgol. Bu llawer o gynnwrf wrth weld yr adar a braf ydi clywed y plant yn defnyddio'r enwau Cymraeg wrth enwi'r adar.

### Prosiect Dalgylchol Santes Dwynwen

Bu disgyblion Dosbarth Yr Aran ar ymweliad i Ysgol Dyffryn Ogwen fel rhan o Brosiect Dalgylchol Santes Dwynwen. Cafodd y dysgwyr gyfle gwerthfawr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hwyliog ac ysbrydoledig, gan gynnwys Sesiwn Swmba Cariad gyda Emma Williams, Jambori, stori a chân gyda Catrin Angharad Jones, a sesiwn gelf greadigol lle bu'r dysgwyr yn creu llwy garu gyda Elin Huws Jones. Roedd y profiad yn un cofiadwy a chyffrous i bawb, gan annog creadigrwydd, cydweithio a mwynhad o ddysgu drwy brofiadau ymarferol.




**JOHN ROBERTS**

Paentiwr
Papurwr

**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995



## Rhowch wyliau i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru

**Helpwch ni i roi haf bythgofiadwy yn un o wersylloedd haf yr Urdd!**

Bydd cyfraniadau i Gronfa Cyfle i Bawb yr Urdd yn rhoi profiad llawn o weithgareddau, trafnidiaeth, llety a bwyd i blant a phobl ifanc na fyddai'n cael y cyfle fel arall.

Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth – boed yn fawr neu'n fach, rydych yn helpu i newid bywydau pobl ifanc yng Nghymru.

"Roedd e mor hyfryd clywed nhw'n siarad am eu profiadau ar y ffordd adref ac roedd yn amlwg wedi rhoi hwb mawr i'w hunan hyder. Am y tro cyntaf, byddan nhw'n gallu dychwelyd i'r ysgol a rhannu profiadau positif o wyliau haf."

- GWARCHODWR

**Sut i wneud cyfraniad:**

- Gwefan yr Urdd: urdd.cymru/cronfa
- Anfon siec at Wersyll yr Urdd Llangrannog yn daliadwy i Urdd Gobaith Cymru
- Tudalen JustGiving: www.justgiving.com/campaign/cronfacyfleibawb

Cyfrannwch heddiw

£230 = gweithgareddau, trafnidiaeth, llety a bwyd i un plentyn yn un o wersylloedd haf yr Urdd.

Urdd

Cronfa Cyfle i Bawb

# CHWILAIR



## HWIANGERDDI

Yn y Chwilair mis yma mae LLINELL CYNTAF DEUDDEG O HWIANGERDDI i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Chwefror. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Llawer iawn ohonoch wedi methu JOHN yn enw JOHN GLYN EVANS a HUGH yn enw HUGH ARTHUR EVANS, felly byddwch yn ofalus wrth cael hyd i'r atebion. Mynd ychydig o lythrennau cyn ac ar ôl yr ateb rydych wedi darganfod. Pob hwyl gyda'r Chwilair mis yma. Diolch hefyd am y geiriau caredig am gadw'r ymenydd i weithio.



| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | C | W | Y | D | D | A | F | Y | D | D | B | A | C | H | W | F | P | H | R |
| I | F | E | J | L | C | M | B | V | M | B | H | X | J | U | I | S | W | V | S |
| H | E | O | H | E | I | M | G | V | Y | H | M | I | D | W | H | U | S | Z | M |
| C | W | T | **G** | **E** | **E** | **C** | **E** | **F** | **F** | **Y** | **L** | **B** | **A** | **C** | **H** | X | I | V | A |
| A | N | E | D | D | R | N | A | P | I | A | U | A | Q | U | S | O | M | F | R |
| B | I | R | P | Y | O | Q | Z | G | S | R | H | M | C | U | M | W | E | N | O |
| L | R | F | Y | R | B | I | A | S | Y | Z | U | I | T | F | D | O | R | X | U |
| U | A | A | P | W | I | R | H | C | N | Q | H | L | W | E | H | D | I | D | O |
| F | R | G | Y | E | N | E | G | E | M | O | M | W | H | E | P | Y | M | A | T |
| I | C | S | T | C | G | B | B | C | A | U | U | L | J | P | L | C | E | W | T |
| N | H | E | M | I | O | V | V | D | G | C | B | I | B | F | R | A | W | D | F |
| E | A | O | O | G | C | J | V | I | U | I | R | E | R | X | I | J | M | N | H |
| G | N | T | T | O | H | S | K | O | R | P | W | H | R | C | M | S | K | Y | C |
| A | H | B | O | R | C | X | V | R | B | Y | H | I | S | T | M | I | R | M | E |
| S | W | F | Y | J | D | Z | H | B | A | C | W | S | O | S | C | A | R | A | A |
| A | I | X | N | I | L | X | J | J | B | M | B | W | T | E | X | L | M | M | D |
| T | I | D | N | A | D | Y | H | C | A | B | G | O | I | L | I | E | C | W | X |
| K | F | U | P | C | Q | Y | O | I | N | L | F | E | R | Z | Q | W | R | C | O |
| C | T | D | G | W | S | L | Z | E | B | E | A | J | K | J | C | I | L | A | N |
| L | R | V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | W | J | J | Q | M | U | D | L |

**Dyma atebion Chwilair Ionawr:** Arthur Edwards; Emlyn Jones; Emrys Griffith; Glynne Jones; Glyn Owen; Hugh Arthur Evans; John Glyn Evans; Lenard Jones; Lewis Jones; Merfyn Owen; Tom Owen
**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:** Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Morgan Williams, Glasinfryn; Judith Hughes, Llangoed; Rosemary Williams, Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Carys Parry, Caerhun; Doris Shaw, Bethesda; Gwen Davies, Bethesda; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Eirian Owen, Erw Las; Barbara Anne Conlan, Glanogwen;
**Enillydd Ionawr oedd:** Merfyn a Laura Jones, Penisa'r Allt, Halfway Bridge, Bangor, Gwynedd LL57 4NB


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

cynghorydd. Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd. EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd. Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd. Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd. Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru





07765 400140 Arllechwedd
07747 690456 Gerlan
07789 742092 Canol Bethesda
07436 927237 Tregarth & Mynydd Llandygai
07949 034967 Rachub

# Partneriaeth Ogwen

**Cydweithfa**
Am ymuno â'r gymuned fach sy'n defnyddio'r Gydweithfa yng Nghanolfan Cefnfaes? Rydym yn cynnig amgylchedd gwaith modern, proffesiynol gyda chysylltiadau band eang cyflym i'ch helpu i wneud y gorau o'ch diwrnod gwaith. I archebu eich desg, ewch draw i'n gwefan: https://partneriaethogwen.simplybook.it/v2/

**Beics Ogwen**



Diolch i Gronfa Cymunedau Eryri mae Beics Ogwen wedi derbyn chwe beic Trek newydd – beiciau cyffrous, smart ac yn berffaith ar gyfer crwydro'r llwybrau lleol.

Hoffech chi i fod ymhlith y cyntaf i'w roi ar brawf? Maent ar gael i'w llogi nawr, felly cysylltwch â Morgan am fwy o wybodaeth drwy e-bostio beics@ogwen.org neu ewch draw i'w weld yng Nghanolfan Cefnfaes rhwng dydd Mercher a Gwener.

**Arolwg Effaith Hwb Ogwen a Dyffryn Caredig**
Mae Dyffryn Caredig a Hwb Ogwen yn parhau i chwilio am ymatebion i'w holiaduron.

Mae'r ymatebion yn gwbl ddi-enw, a byddem yn gwerthfawrogi unrhyw adborth i ni allu gwella ein gwasanaeth ac i'w ddefnyddio fel tystiolaeth a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau grant.

Mae dolenni i'r holiaduron i'w gweld ar dudalennau Facebook Hwb Ogwen a Dyffryn Caredig neu os hoffech gopi papur, galwch draw i'r swyddfa ar y Stryd Fawr.

**Y Gofod Gwneud**
Mae sesiynau agored yn y Gofod Gwneud yn parhau. Os ydych chi'n awyddus i greu rhywbeth yn y Gofod Gwneud ond ddim yn siŵr ble i ddechrau, mae'r sesiynau agored yn berffaith i chi. Maent yn cael eu cynnal bob nos Lun o 4yh tan 8yh. Mae croeso i aelodau o'r gymuned alw fewn am ddim gyda'n technegydd i ddysgu sut i ddefnyddio'r holl beiriannau a chael help gydag unrhyw brosiectau.

Rydym hefyd yn ffodus iawn o Jo Hinchliffe sydd yn cynnal sesiynau arbenigol i ni - mi fydd gweithdy Inkscape - Dechrau Arni yn cael ei gynnal ar nos Iau, 26ain o Chwefror yn y Gofod Gwneud rhwng 6pm-9pm. Mae angen dyluniadau sy'n cynnwys llwybrau neu "fectorau" ar lawer o'r peiriannau yn y Gofod Gwneud i'r peiriant eu dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys y Torrwr Laser, y Torrwr Finyl, y peiriant Brodwaith Digidol a mwy. Mae Inkscape yn rhaglen ffynhonnell agored am ddim y gellir ei defnyddio i greu delweddau a dyluniadau ar gyfer y peiriannau hyn. Yn ystod y sesiwn, byddwn yn mynd dros yr holl hanfodion dechreuol gyda Inkscape.

**Gweithdy Sashiko**
Ymunwch efo Angharad Gwyn ar gyfer gweithdy Sashiko, sef gweithdy gwnïo Siapaniaidd. Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle, cysylltwch â ni drwy e-bostio gofod@ogwen.org.



**Teithiau Cerdded LleChi LleNi**
Rydym yn edrych ymlaen at ddwy daith gerdded LleChi LleNi yr ydym wedi trefnu ar y cyd gyda Chaban Gerlan. Mi fydd y cyntaf o'r ddwy yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, 21ain o Chwefror sef taith gerdded am ganu pop Pesda Roc o dan arweiniad Rhys Mwyn. Ar gyfer y daith gerdded hon rydym yn annog i chi rannu eich straeon ac atgofion hefo ni. Byddwn yn cyfarfod tu allan i Neuadd Ogwen i gychwyn ar y daith gerdded am 10am. Yna, yn dilyn gohirio'r daith gerdded nôl ym mis Tachwedd, rydym yn falch o allu rhannu ein bod gennym ddyddiad newydd ar gyfer y daith gerdded arbennig o amgylch Moel Faban i ddysgu am chwedlau a straeon o Ddyffryn Ogwen o dan arweiniad Jess John o gwmni Tylwyth. Y dyddiad newydd yw dydd Sadwrn, 21ain o Fawrth.

Byddwn yn cyfarfod yng Nghaban Gerlan am 9am, ond oherwydd sefyllfa parcio yno, gofynnwn i bawb sy'n teithio mewn car i barcio yng Nghanolfan Cefnfaes er mwyn teithio gyda'n gilydd i fyny at y Caban.

Mae cofrestru i'r ddwy daith gerdded yn hanfodol drwy e-bostio gofod@ogwen.org.


ELUSEN OGWEN

Os... ydych chi'n aelod o grŵp yn Nhal-y-Bont, Llandygái, Bethesda, Tregarth, Rhiwlas, Mynydd Llandygái neu'r cyffiniau

ac hoffech chi gael grant o hyd at £3,000 ar gyfer prosiect

Yna... sganiwch y cod QR i fynd i'n gwefan i weld

- a yw eich prosiect yn gymwys
- a sut i gyflwyno cais



SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i'n Pencampwr Bocsio, Mitchel Jones, 80 Bro Emrys, a ddathlodd ei ben-blwydd yn ddeunaw ar Ionawr 14eg. Pob bendith a llwyddiant iti i'r dyfodol, Mitchel.

**Llongyfarchiadau**
Mae Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, wedi dod yn hen-hen nain ers canol mis Ionawr. Ganwyd Elsi fach, fis yn gynnar, i'w gor-ŵyr Sam a'i gymar Lois sydd â'u cartref ym Maesgeirchen. Llongyfarchiadau i Yvonne, merch Rhiannon, sy'n hen-nain bellach, ac i Siôn, mab Yvonne, ar ddod yn daid. Ychydig iawn o deuluoedd sy'n cael y fraint o groesawu aelod o'r bumed cenhedlaeth i'w plith. Iechyd da a hir oes iddynt oll!

Llongyfarchiadau i Margaret Fernley, Helyg, a ddaeth yn hen-nain ar ôl y Nadolig, pan aned merch fach i'w hwyres, Philippa, sy'n byw yng nghyffiniau Manceinion.

Bu genedigaeth y fechan yn donic i'w hen-nain oedd yn diodda'n enbyd o'r eryr ar y pryd.

Cawn wybod yr enw pan ddaw Mag yn ôl o'i gwyliau.

**Brysia wella**
Bu'n rhaid i Sheila Owen (Redfern gynt) fynd i Ysbyty Gwynedd ar Ionawr 23ain, y diwrnod cyn ei phen-blwydd. Gobeithio na fydd yn hir cyn iddi gael dod adref, wedi gwella'n llwyr.

Dymuniadau gorau i Rita Hughes (Post) sydd wedi cael profion yn Ysbyty Broadgreen yn ddiweddar.

Diolch byth bod y Gwanwyn a'r Haf o'n blaenau, i bob un o'n ffrindiau sydd o dan y don gael cyfle i wella'n iawn.

**Newid aelwyd**
Anfonwn ddymuniadau gorau i Elisabeth Williams, 2 Min Ogwen, sydd wedi mynd i fflat yng Nghae Garnedd, Penrhos. Gobeithio y byddi'n hapus yn dy gartref newydd, Lis. Mae amryw byd o drigolion y Dyffryn wedi ymgartrefu'n ddedwydd iawn yng Nghae Garnedd ers ei sefydlu rai blynyddoedd yn ôl.

### Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Chwefror 22: Parchg. Iwan Llewelyn Jones.
Mawrth 01: Oedfa Gŵyl Ddewi.
Mawrth 08: Mr. Richard Parry Jones.
Mawrth 15: Parchg. Dafydd Job.
Mawrth 22: Parchg. Anna Jane Evans.
Mawrth 29: Parchg. John Pritchard.

## Gair neu ddau
### John Pritchard

## Capeli Diflanedig

Mi fûm yno deirgwaith o leiaf. Ond roedd hyd yn oed enw'r lle wedi mynd yn angof nes i mi weld cofnod ohono heno (yn y 'llyfr bach' y soniais amdano'r mis diwethaf). Rhyfedd hynny o gofio bod cwmwd Uwchgwyrfai'n gyfarwydd i mi.

A rhyfeddach fyth o sylweddoli pryd yr euthum yno gyntaf. Ganol Chwefror 1975 oedd hi; y Sul cyntaf erioed i mi bregethu. Roeddwn yn cofio mai yng nghapel Babell, Llanaelhaearn y pregethais gyntaf, ond wedi anghofio fy mod, rhwng y ddwy oedfa yno, wedi pregethu hefyd yn oedfa'r pnawn yng nghapel Cwm Coryn. Mi fûm yno ddwywaith wedi hynny, ond er mawr gywilydd rhaid cyfaddef bod y capel, y cwm, a'i enw hyd yn oed wedi mynd yn llwyr o'm cof. Os oes gan unrhyw un ohonoch gysylltiad â'r cwm a'r capel, maddeuwch f'anghofrwydd. Mae'r capel wedi cau ers talwm, ond y tro nesaf yr af am Bwllheli, mi drof i'r chwith ym mhentref Llanaelhaearn a dilyn y ffordd gul i Gwm Coryn i chwilio amdano.

Un yn unig o blith cannoedd o gapeli diflanedig ein gwlad ydi capel bach Cwm Coryn. O'r saith capel ar hugain arall y bûm yn pregethu ynddyn nhw weddill y flwyddyn gyntaf honno mae o leiaf ugain wedi cau. Ac mae'n debyg mai'r gwir trist ydi bod canran uchel o'r capeli y bûm yn pregethu ynddyn nhw ers y Sul cyntaf hwnnw wedi peidio â bod yn fannau addoli erbyn hyn. Gwaetha'r modd, mae hynny'n amlwg ddigon yn Nyffryn Ogwen fel ym mhob dyffryn a phentref a thref ledled y sir a'r wlad. A'r ofn, i bawb sy'n dal i weld gwerth y capel a'r cyfan y mae'n ei gynrychioli, ydi bod y patrwm hwn yn parhau ac y bydd rhagor o gapeli ac eglwysi'n cau dros y blynyddoedd nesaf. Mae hynny er gwaethaf ymdrechion glew'r bobl dda sy'n ymdrechu i'w cynnal ac i barhau eu tystiolaeth.

Gyda diflaniad y capeli a'r eglwysi, collir cymaint o ran diwylliant a chymdeithas a ffordd o fyw. A chyda thranc ymddangosiadol anochel y capeli Anghydffurfiol, gwelwn golli cyfundrefn sydd wedi galluogi cenedlaethau o bobl nid yn unig i addoli yn Gymraeg ond i gymdeithasu ac i fyw bywyd cyflawn trwy gyfrwng yr iaith. Ond y golled fwyaf wrth reswm ydi colli'r dystiolaeth a fu trwyddyn nhw i'r Arglwydd Iesu a'r Efengyl. Nid bod y dystiolaeth honno na'r capeli wedi diflannu'n llwyr: mae llawer yn parhau ac yn ffynnu. Diolchwn i Dduw amdanyn nhw, a gweddïwn ar iddo ddal i'w harddel ac i lwyddo'u cenhadaeth.

Ond beth bynnag ddaw o'r capeli, mynnwn gredu y gall y dystiolaeth barhau. Er pwysiced fuon nhw dros ganrifoedd, ac er cymaint a gyflawnwyd ac a gafwyd trwyddyn nhw, nid y capeli ydi'r dechrau na'r diwedd. Dyw'r Efengyl a'i gwirionedd ddim yn dibynnu ar na chapel nac adeilad. A dyw diflaniad y capeli ddim yn gwanhau nac yn dirymu'r Efengyl. Peidiwch â'm camddeall: mi rydw i o blaid y capeli. Wrth gwrs fy mod i, a minnau wedi treulio oes gyfan yn ceisio gwasanaethau ynddyn nhw a thrwyddyn nhw. Ond hyd yn oed pe collid y cyfan, mi fedrai Duw barhau ei waith a galluogi ei bobl i dystio i wirionedd a chyfoeth yr Efengyl.

Wn i ddim be ddaw o gapeli ein gwlad. Wn i ddim chwaith be ddaw o'r Efengyl; a fynnwn i ddim rhyfygu trwy ddeud y bydd Duw yn sicr o'i harddel yn ein gwlad. Yr hyn a wn, a'r hyn y mynnaf ei gredu, ydi bod Duw'n fwy nag abl i lwyddo o'r newydd yr Efengyl yn ein gwlad, trwy ba gyfrwng bynnag y bydd yn ei ddewis. A diolch am fedru galw arno i wneud hynny.

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

*Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?*

# Natur o'n Cwmpas



## Y Falwen

Creadur cyffredin a chyfarwydd iawn yw'r falwen neu'r falwoden. Mae *Llyfr Natur* Iolo Williams yn rhestru deuddeg math o falwen yng ngwledydd Prydain (a hynny heb gynnwys malwod dŵr), sef malwen y perthi, malwen wefus wen, malwen wefus frown, malwen blethen, malwen yr ardd, malwen Rufeinig, malwen y selar, malwen garlleg, malwen ambr, malwen fefus, malwen gron, malwen bwlin. Mae nifer o'r rhain i'w cael mewn gerddi a choedwigoedd yng Nghymru, a llefydd llaith yw eu cynefinoedd. Fodd bynnag, mae dros 60,000 o wahanol rywogaethau yn y byd i gyd.

Beth yw natur yr anifail bychan hwn sy'n 'cario'i dŷ ar ei gefn'? Molwsg bychan ydyw, yn pwyso rhwng 25g a 45g. Ei nodweddion amlycaf yw'r gragen, y 'cyrn,' sef y tentaclau ar ei phen efo llygaid ar eu blaenau, a'r llysnafedd sy'n llwybr o'i hôl. Mae'r llysnafedd – yr hylif gludiog sy'n cael ei ryddhau o'i chorff – yn gymorth iddi symud drwy lithro, a'r un pryd yn ei dal pan fydd yn mynd i fyny neu i lawr wyneb unionsyth coesyn llysieuyn, craig neu wal. Mae'n rhyfeddol bod llysnafedd y falwen yn cael ei ddefnyddio gan gwmnïau sy'n cynhyrchu hufen ar gyfer gofalu am y croen. Gall fod yn gymorth i gadw'r croen yn llyfn ac i fendio briwiau.

Mae'r falwen yn dodwy tua 100 o wyau ar y tro, a hynny yn y pridd, ond dim ond rhwng 20 a 50 fydd yn deor yn llwyddiannus. Bydd y gragen feddal sydd ganddi o'i geni yn caledu wrth iddi gael calsiwm drwy fwyd. Y gragen sy'n gwarchod organau ei chorff, ac mae'n gweithredu fel lloches iddi rhag perygl. Os yw ei chragen yn torri, fedr hi ddim tyfu un newydd. Er mwyn ei gwarchod ei hun rhag rhew, bydd yn encilio i'w chragen ac yn cynhyrchu hylif arbennig i selio'r agoriad. Hyd oes malwen yw 3 i 7 mlynedd.

Yn ystod y nos y bydd hi'n dod allan o'i chysgodfan i fwyta mewn gerddi. Gelyn ydy hi i'r garddwr gan ei bod hi'n bwyta dail ei lysiau ac yn difetha cynnyrch yr ardd, fel y mae'r englyn ysgafn hwn yn ei nodi:

Hen un od yw'r falwoden; – mewn salad
Mae'n sylwedd anniben;
Yn y ffa mae'n stwffio'i phen,
Hwn *bitch* lle bo cabatsien.

Serch hynny, mae gan falwod ran bwysig yn ecosystem yr ardd. Er eu bod yn medru gwneud difrod i'r cynnyrch, maent yn gymorth i sylwedd llysieuol bydru gan gyfrannu i gadw'r pridd yn iach. Maent hefyd yn fwyd i adar. Bydd rhai adar, fel y fronfraith, yn cydio yn y gragen efo'i phig ac yn ei thorri drwy ei tharo yn erbyn carreg neu graig.

Byddai plant erstalwm yn cael cryn hwyl yn chwarae rasys malwod. Mae gennym gymhariaeth 'Mor araf â malwoden', ac yn aml iawn clywir y dywediad 'Ty'd yn dy flaen. Ti 'fath â malwan.' Os bydd rhywun yn araf ofnadwy dywedir 'Ti 'fath â malwan mewn col tar!"

Gwyddom eu bod yn bryd bwyd poblogaidd gan Ffrancwyr, a chredid yng Nghymru yn yr hen oes fod eu bwyta wedi eu berwi mewn llefrith yn dda i chi.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

# Plaid Cymru Dyffryn Ogwen



Roedd Neuadd Ogwen dan ei sang pan ddaeth grŵp Vrï i berfformio yn ddiweddar. Trefnodd y gangen y gig i godi arian ar gyfer ein hymgyrch i ethol rhestr o aelodau Plaid Cymru i gynrychioli etholaeth Bangor Conwy Môn yn y Senedd ym mis Mai. Roedd pob tocyn wedi'i werthu a mwynhaodd pawb wledd o ganeuon gan y grŵp cyffrous hwn. Roedd yn braf croesawu Rhun ap Iorwerth, Arweinydd y Blaid, i'r noson. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r band. Diolch hefyd i'r gynulleidfa a ddaeth i wrando, gan greu awyrgylch arbennig o gymuned ac undod.




**Sylwer**: mae dyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y gangen wedi newid. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar 31ain Mawrth yng Nghanolfan Cefnfaes, a byddwn yn falch iawn o groesawu ein siaradwraig wadd Siân Gwenllian, a fydd yn ymuno â ni i rannu ychydig am ei hamser a'i phrofiadau fel Aelod o'r Senedd dros Arfon. Cynhelir y cyfarfod am 7.00 i aelodau'r gangen a bydd croeso cynnes i bawb ymuno â ni am 7.30 i wrando ar Siân Gwenllian.

Cyn hynny, dewch i ymuno â ni am Fore Coffi Gŵyl Dewi yng Nghaffi Coed y Brenin ar ddydd Sadwrn, 28 Chwefror, rhwng 10.00 a 12.00. Mynediad yw £1.00, a bydd digon o gyfle am baned, sgwrs a chwmni da wrth ddathlu ein nawddsant.

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts ac aelodau o'r côr

**Gyda siom a thristwch, yn gymysg ag atgofion difyr y cyrhaeddodd y newydd am farwolaeth Fred Buckley, T2 o Dregarth cyn diwedd Mis Ionawr. Roedd Fred yn 92 oed ac wedi bod yn aelod gweithgar o Gôr y Penrhyn a sawl cymdeithas arall yn Nyffryn Ogwen.**



**Aelod ffyddlon a chyson**

Yn y côr roedd Fred yn aelod ffyddlon ers rhai blynyddoedd ond yn fwy na hynny cymerodd y cyfrifoldeb am osod y cadeiriau allan cyn i'r aelodau eraill gyrraedd. Doedd dim rhaid dweud wrth Fred bod angen gwneud rhywbeth – roedd o'n gweld yr angen ac yn ei wneud heb i neb ei gymell. Aelod y gellid dibynnu arno na fyddai braidd byth yn colli ymarfer na chyngerdd oedd Fred.

Yr un modd gyda phethau eraill. Yn y Clwb Bowls er enghraifft, byddi Fred yn mynd ati i dorri'r glaswellt pan oedd y diweddar Billy Williams ddim ar gael. Unwaith eto doedd dim eisiau gofyn i Fred - gwneud byddai o am fod rhaid i'r gwaith gael ei wneud. Yn wir parhaodd Fred i chwarae bowls yn gystadleuol nes iddo basio ei nawdegau. Roedd o'n chwaraewr medrus a phrofiadol a hoffai ddweud wrth gyrraedd Clwb Bowlio Craig y Don, er enghraifft, "Dwi wedi chwarae'r rhain i gyd ac wedi'u curo nhw". Neu, fe atgoffai bobl, "Dwi wedi chwarae bowls ers hanner can mlynedd cyn i hanner rhain gael eu geni."

Yn fwy na'r bowls, cododd gannoedd o bunnau i'r Clwb Criced drwy gynnal y bingo'n wythnosol yn y clwb. Ie, un parod i roi ei ysgwydd dan y pwn oedd Fred.

**Cymwynaswr**

Gwnaeth Fred gymwynasau â llu o bobl. Os oedd angen rhywun i yrru pobl hwnt ac yma, boed i siopa, mynd â theuluoedd i'r ysbyty i ymweld, neu i weithio fel hebryngwr mewn angladdau, byddai Fred yno. Yn wir, rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth fel gyrrwr a hebryngwr i gwmni angladdau Stephen Jones. Roedd yna urddas a pharch yn ei ymarweddiad ymhob achlysur felly, a bydd bwlch mawr ar ei ôl. Cymeriad gwreiddiol a diddorol ar sawl cyfrif oedd Fred ac roedd ganddo lu o straeon am y chwarel, oherwydd yno y treuliodd y mwyafrif, os nad y cyfan, o'i ddyddiau gwaith. Hoffai sôn am grefftwyr a chwarelwyr medrus ac anaml y clywid ef yn feirniadol o neb.

Bu i Fred, a'i ddiweddar briod Bessie, fyw yn Nhregarth am y rhan fwyaf o'u bywyd priodasol a dibynnai Fred yn drwm arni am bopeth yn y cartref o goginio i wnïo a thalu biliau. Hawdd fyddai credu bod colli Bessie wedi effeithio'n drwm ar Fred er na fyddai wedi cyfaddef hynny. Gwraig gymeradwy a hoffus iawn oedd hithau a bydd bwlch enfawr ar eu holau yn Nyffryn Ogwen. Cydymdeimlwn â'r teulu ac â holl ffrindiau a chymdogion Fred a Bessie.

**Heddwch i'w llwch.**

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Rhys Harris sy'n canu yn adran y baritôn.**

**Be' ydy dy enw llawn?** Rhys Harris
**Oed?** 68
**Gwaith** Cyfrifydd wedi ymddeol
**le wyt ti'n byw?** Bethel, Caernarfon
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Pontardawe, Cwmtawe
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Cydwybodol, cyfeillgar, hwyliog
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Blwyddyn
**Pa lais wyt ti?** Bariton
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Rwy'n hoff o ganu ac fe fûm yn ystyried ymuno gyda chôr. Ar wyliau sgïo llynedd gydag Wyn Roberts ymysg eraill, fe berswadiodd fi i ymuno a Chôr y Penrhyn.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** *'Mor Fawr Wyt Ti'*
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Pavarotti
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Rwy'n hoff iawn ohono. Roeddwn i'n arfer bod mewn grŵp pop pan oeddwn yn ifanc - Y Trwynau Coch.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Atgofion melys iawn o'r daith i Ganada ym mis Medi 2025.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Rwyf ar amryw o bwyllgorau a byrddau cwmnïau. Hefyd dwi'n mwynhau pysgota, garddio, seiclo a charafanio.



**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Rhyddhau albwm arall.
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Ers ymuno rwyf wedi cael croeso arbennig. Mae pawb wedi gwneud i mi deimlo'n gartrefol iawn.

## Eisteddfod Felinheli 6 Chwefror 2026

Erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn bydd y côr wedi cystadlu yn yr eisteddfod uchod. Mae Eisteddfod y Felin yn eisteddfod leol i Gôr y Penrhyn erbyn hyn gan fod cymaint o aelodau'r côr yn byw yn Y Felinheli.

Dywedodd Llion Derbyshire, sy'n un o hoelion wyth y côr, "bydd croeso mawr yn disgwyl yr hogie yn yr eisteddfod ac mae'n gyfle penigamp i ddangos i bobl y Felin a'r cyffiniau pa mor dda yw eu côr hwy am ganu yn eu cynefin."

Fel '*Bangor Lad*' roedd Maldwyn Pritchard hefyd yn eiddgar i gystadlu yn y Felin ac meddai, "gan fy mod wedi fy magu ar riniog y Felin fel petai, mae ymweld â'r pentref difyr a Chymreig hwnnw yn bleser i mi bob amser". Ychwanegodd , "canu yw un o fy hoff weithgareddau ar ôl mynd allan i gael brecwast a chwarae bowls a bydd cystadlu ar lwyfan yn y Felin yn uchafbwynt y flwyddyn i mi."

Y darnau y dewisodd y côr i gystadlu gyda nhw oedd *Hwiangerdd y Morlo* (Eric Whitacre); *Bendigedig* (Robat Arwyn); *Mor Fawr Wyt Ti* (Alaw Swedaidd).

Cewch wybod y canlyniad y tro nesa'.



# CHWARAEON

## Adran Ieuenctid Clwb Criced Bethesda

Cynhaliwyd noson lwyddiannus i ddathlu a'i wobrwyo cricedwyr ifanc y clwb ym mis Medi.

Roedd y noson yn cwmpasu prysurdeb misoedd yr haf ble mae sesiynau Dynamos ymlaen ar y nos Wener, ymarferiadau'r wahanol dimau yn ogystal a'r gemau canol wythnos.

Yn ystod y noson cafodd gwobrwyon i'w dyrannu ar gyfer categoriau Chwaraewr yr hyfforddwr, Chwaraewr a wellodd fwyaf, batiwr a boliwr i bob tîm.

Profwyd un o uchafbwyntiau'r tymor wedi i dîm dan 13 y clwb gyrraedd brig y gynghrair wrth guro Bae Colwyn o 56 o rediadau a sicrhaodd eu llwyddiant yn y gêm olaf.

Rydym hefyd yn hynod falch o Amos Owen, Morgan Williams, Hari Herbert a Efan Lloyd a gafodd eu ddewis i gynrychioli carfan o dan 9 oed Gogledd Cymru.

Yn ogystal a Celt Hughes, carfan dan 11, a Owen Ben Job, carfan dan 14; a gafodd eu dewis i gynrychioli.

Diolch i'r hyfforddwyr a'r rhieni am eu cefnogaeth parod. Ymlaen â ni i dymor 2026!



**Tîm Dan 9 Oed y Dynamos:** *Deio Parry, Shane Williams, Iolo Jones, Owain Williams*



**Tîm Dan 15:** *Ben Job, Celt Hughes, Elgan Lloyd, Ifan Hughes*



**Tîm Dan 13:** *Ben Job, Judah Parry, Elis Thomas*



**Tîm Genethod Dan 14:** *Cara Lennox, Celyn Rhys, Moli Bardsley, Talia Owen*



**Tîm Dan 11:** *Amos Owen, Rhodri Adams, Rheon Evans, Efan Lloyd*


DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

SPAR
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

## Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

### Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod y cyngor cymuned ar nos Iau, Ionawr 29ain
**Cynllun Heuldro** Mae cynllun heuldro Ynni Ogwen wedi cytuno gosod paneli solar a system batri yng Ngorffwysfan.
**Swyddog Cynnal** Penderfynodd y cyngor ariannu diwrnod ychwanegol i'r Swyddog Cynnal, a fydd yn ei alluogi i fwrw ymlaen gyda'r gwaith garddio cymunedol a'r sesiynau casglu sbwriel yn ardal Bethesda.
**Carnifal Bethesda** Cytunwyd i gyfrannu rhodd o £2000 i Garnifal 2026.
**Gosod y Gyllideb** Mae'n amser o'r flwyddyn pan mae'r cyngor yn penderfynu ar eu cyllideb flynyddol. Wedi cryn drafodaeth, penderfynwyd codi'r praesept ar gyfer 2026-27 er mwyn gallu dechrau ar y gwaith ar faes parcio Gerlan.

**Apêl**
Cofiwch os oes unrhyw newyddion gennych anfonwch atom mae'r cyfeiriadau uchod.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Mali Rhys ac Ioan ar enedigaeth eu mab bach, Now Meilir.

Mae croeso mawr i'w ŵyr cyntaf gan nain a taid Erw Las, Dewi a Morfudd Roberts, nain Talybont, Siân Pritchard, a taid Ffrydlas, Rhys Williams ac wrth gwrs hen daid Tregarth, Arthur Williams. Mi fydd yr antis hefyd wedi mopio'n lân.

**Cartref Newydd**
Croeso i Erin Bryn a Jon Gambling i'w cartref newydd yn Ffordd Coetmor.

Wedi cyfnod yng Nghaerdydd mae Erin yn ôl yn ei chynefin gyda Jon, ei gŵr.

**Dymuniadau Gorau**
Anfonwn ein cofion at Gwladys Thomas, Ffordd Carneddi, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn ddiweddar. Pob dymuniad da i ti, Gwladys.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Mili Jên Roberts, Troed y Foel, Ffordd Carneddi ar ei llwyddiannau diweddar mewn cystadlaethau dawnsio. Enillodd wobr gyntaf yn Blackpool a dwy wobr gyntaf yn Lerpwl. Da iawn ti, Mili.

**Profedigaethau**
Anfonwn ein cydymdeimladau at Glenys a Dic Rowlands, Erw Las, wedi i Glenys golli ei chwaer, Gwen, oedd yn byw yn Llanfairfechan.

Ar Ionawr 12fed bu farw Gweno Mai Roberts, 1 Glanogwen Cottages, yn dawel yn Ysbyty Maelor, Wrecsam.

Roedd Gweno yn chwaer i Ann a'i gŵr, Gwilym; Gwyn a'i ddiweddar wraig Rhian a'r ddiweddar Will a'i wraig Sulwen. Roedd hi'n fodryb hoff iawn i'w holl nithoedd a neiaint a bydd yn cael ei chofio gyda chariad gan y teulu i gyd.

Bydd rhoddion er cof am Gweno yn mynd tuag at elusennau Ymchwil Cancr a Mind.

Rydym yn cydymdeimlo yn fawr iawn gyda'r teulu i gyd.

Yn dawel a heddychlon yng nghartref ei merch yn Nhy'n Rallt, Trefdraeth, Bodorgan bu farw Mrs. Eirwen Griffith (glo.) Mam annwyl Helen a'r diweddar Alan Griffith (glo.) Gwraig ffyddlon ac addfwyn Eifion Griffith(glo.)

Yn nain gariadus ac ofalgar i Llŷr ac Osian, Rhys a Dewi. Yn hen nain i William, Hedd, Siwan, Eban, Elgan, Cadi, Guto a Mei bach. Bu'n ffrind arbennig i sawl un, ac yn gymdoges heb ei hail i bawb yn Rhes Mostyn, Bethesda.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Helen a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Clwb Cant Glanogwen**
*Enillydd mis Rhagfyr*
1af – Gareth Jones
2il – Blodwen Dignam

*Enillydd mis Ionawr*
1af – Sara Milner-Jones
2il – Cadi Parry

## Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

**Gwynedd Ddigidol**
Mae sesiynau Llion Elis wedi bod yn llwyddiannus iawn. Daw Llion i'r Llyfrgell pob bore Iau (rhwng 10:00 a 12:00) i roi cymorth i bobl Dyffryn Ogwen gydag unrhyw broblem yn ymwneud â ffonau symudol, iPads a chyfrifiaduron a hynny'n rhad ac am ddim.

Mae'r cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr a llawer wedi elwa ohono. Mae nifer wedi derbyn cymorth i brynu ffonau drwy'r sesiynau ac mae Llion wastad yn barod i helpu a gosod pob peth yn gywir a threfnus arnynt.

Cafodd y sawl a alwodd am gymorth cyngor ar sut i dalu biliau ar-lein, cael gwared ar firysau o ddyfeisiau yn ddiogel ac ambell aelod o Gôr y Penrhyn wedi derbyn cymorth â'i iPads. Os ydych yn teimlo'n ddi-hyder yn y maes digidol, galwch draw am sgwrs! Gobeithio y bydd y gwasanaeth gwerthfawr hwn yn parhau.

**Paned a Sgwrs**
*Rhai aelodau o griw 'Paned a Sgwrs' yn y Llyfrgell.*
Mae'r sesiwn Paned a Sgwrs yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae'r sesiynau yn cynnig cyfle i ddysgwyr hyderus ymarfer eu sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg. Cânt gyfle o fewn y sesiynau hyn i ddarllen amrywiaeth o ddeunydd a sgwrsio am bob mathau o bynciau.

Diolch, Eleri am arwain!



**Meithrinfa Ogwen**
*Rhai o blant Meithrinfa Ogwen yn mwynhau eu hunain yn y Llyfrgell.*



Mor braf yw gweld criw o blantos bach Meithrinfa Ogwen yn ymweld â'r Llyfrgell yn wythnosol. Maent wrth eu boddau yn chwarae gyda'r tegannau a gwrando'n astud ar storïau gan eu gwarchodwyr. Cymaint yw'r mwynhâd, mae'r plantos yn benthyg swp o lyfrau ar ddiwedd pob ymweliad, er mwyn derbyn mwy o storïau unwaith y byddant yn ôl yn y Feithrinfa!
Cofiwch am y sesiynau canlynol:
'Ji Babi Bach' – pob bore Llun 10:30-11:15. Sesiwn ganu a stori ar gyfer babanod sydd heb gychwyn cropian na cherdded.

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Cynhaliwyd oedfaon llawn bendith yn ystod y mis diwethaf, pryd y gwasanaethwyd gan ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, a'r Parchedig Olaf Davies. Diolch iddynt ill dau. Ar y Sul cyntaf o Ionawr, cynhaliwyd y Blygain arferol, gyda Pharti Merched y Capel, Beti Rhys a'r criw, Lowri Roberts a'r criw, Cai Fôn Davies, Rhiannon Williams, a Hogia'r Bonc yn cymryd rhan. Mwynhawyd orig fach hyfryd a chynhesol yn eu cwmni, a diolch o galon iddynt oll am eu parodrwydd i gymryd rhan. Diolch hefyd i Ceri am drefnu'r 'swper' oedd yn dilyn, ac i'r gynulleidfa deilwng a ddaeth ynghyd. Da gallu dweud bod y traddodiad yn parhau yma yn y Dyffryn.

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol 2025**
'Rydym yn falch o gyhoeddi bod y casgliad a wnaethpwyd yn dilyn yr oedfa arbennig hon yn £350.00. Bydd yr arian yn mynd i UNICEF – diolch i bawb am eu cyfraniadau.

**Salwch**
Testun pryder i ni i gyd oedd gweld Mrs. Elna Jones yn dioddef anhwylder yn ystod y baned y dydd o'r blaen, ond mae'n dda cael dweud ei bod wedi dod drosto, ac yn gwella'n foddhaol. Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n dioddef o anhwylder y dyddiau hyn, gan obeithio y daw'r Gwanwyn cyn hir i godi calonnau.

**Marwolaeth**
Trist iawn yw gorfod cofnodi ymadawiad Mrs. Eirwen Griffith yn ystod y mis. Bu Mrs Griffith yn ffyddlon iawn i weithgareddau'r Capel, hyd oni ddaeth llesgedd i'w rhwystro. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y teulu oll, yn enwedig at Helen ei merch, a fu mor ofalus ohoni.

**Y Gymdeithas**
Yn anffodus, bu'n rhaid canslo cyfarfod Ionawr o'r Gymdeithas oherwydd tywydd garw. Edrychwn ymlaen at gyfarfod eto ym mis Chwefror.

**Llenwi'r Cwpan**
Cofiwch am y baned bob bore Iau – cyfle i gael sgwrs ddifyr gyda'n gilydd!

**Cyhoeddiadau'r Sul**
*Chwefror*
15 Y Gweinidog (10)
22 Y Parchedig Iwan Ll. Jones (5)

*Mawrth*
1 Y Parchedig R.O Jones (5)
8 Y Gweinidog (10)
15 Y Parchedig Cledwyn Williams (5)
22 Y Parchedig Gerallt Ll. Evans (5)
29 Undebol yn Jerusalem yng ngofal Y Gweinidog (10)


1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.


*Cysylltwch â ni:*
*golygydd@llaisogwan.com*


BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS


01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS




'Paned a Sgwrs' pob bore Iau - 10:30 – 11:30. Cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio yn y Gymraeg. 'Gwynedd Ddigidol'- pob bore Iau 10:00-12:00. Os ydych angen cymorth gyda'ch tabled, ffôn neu gyfrifiadur, bydd Llion Elis ar gael i'ch helpu.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Apêl**
Mae cronfa'r apêl yn dal ar agor am roddion, gan fod costau cynyddol yn dod i law oherwydd tywydd garw a.y.y.b. Diolch am unrhyw roddion, gwerthfawrogir pob un yn fawr.

Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r apêl, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop er mwyn derbyn manylion pellach.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella wedi llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n galaru wedi colli anwyliaid.

Cofiwch roi gwybodaeth i'r Ficer neu Sara os oes rhywun yn awyddus i dderbyn ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Plas Ogwen**
Ar y Sul olaf o'r mis, mi fydd y Parchedig Sara yn cynnal gwasanaeth Cymun i drigolion Plas Ogwen am 2 o'r gloch y prynhawn.
Mae hwn wedi profi'n boblogaidd i'r rhai sydd wedi mynychu hyd yma ac mae croeso i bawb. Mae'n wasanaeth byr, a chyfle i gyd-ganu ambell i emyn.

**Gwasanaethau dros y gaeaf**
Mae trefn y gwasanaethau o fis Medi tan y Pasg fel a ganlyn:

**Gwasanaethau Eglwys Crist:**
**Suliau 1af a'r 2il yn y mis**: 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.

**Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis** am 10.30am - Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, paned a sgwrs i ddilyn. Croeso cynnes, fel yr arfer, i bawb ymuno â'r holl wasanaethau.

Edrychwn ymlaen at y **Prynhawn Crempog** cyn cychwyn tymor y Grawys; cynhelir cyfarfodydd byr yn dilyn Llwybr y Groes bob nos Fawrth yn yr eglwys am 7 yr hwyr; bydd manylion am wasanaethau'r Pasg yn rhifyn mis Mawrth.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu â'r Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd, ein ficer, ar 01248 361521 am unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys. Neu'r Parchedig Sara Roberts, ein hoffeiriad cynorthwyol, ar 07967652981.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygái

**Diolch**
Cyn y Nadolig, cafodd y ddarllenfa eryr ac un o'n darllenwyr godwm wedi'r llith ddod i ben. Drwy wyrth, ni chafodd y person niwed ond roedd angen sylw ar yr eryr druan.

Hoffem ddiolch i Phil Hughes o Fraichmelyn ond o Fryn, Llandygai gynt, un o'n cefnogwyr, am drwsio'r eryr/ddarllenfa i ni yn rhad ac am ddim!

**Ffarwel â phob lwc**
Wedi misoedd o lenwi'r bwlch wrth yr organ, rydym yn drist i ddweud hwyl fawr i Owain Morgan o Fethesda wrth iddo baratoi i symud ar gyfer swydd newydd yn Llundain. Bydd colled fawr ar ei ôl. Rydym wedi bod yn ffodus iawn i gael cyfeiliant mor broffesiynol i'n haddoliad. Pob lwc yn dy swydd newydd, Owain a phaid â bod yn ddieithr!

**Gwellhad Buan**
Gyrrwn ein dymuniadau gorau i Pauline Edwards, Yr Hen Dŷ Ysgol, wedi llawdriniaeth yng nghanol Ionawr. Mae Raymond yn gofalu amdani yn ardderchog a hyderwn cawn weld Pauline o gwmpas y pentref cyn bo hir.



**Raffl Santes Dwynwen**
Llongyfarchiadau i enillydd y raffl potel siampên ar gyfer diwrnodau Santes Dwynwen a St. Ffolant eleni! Mae elw'r raffl, cyfanswm anrhydeddus o £276, at Gronfa Atgyweirio St. Tegai, yn benodol i drwsio waliau'r clochdŷ. Yr enillydd lwcus oedd Martin Brown, fel Capten y Tŵr, yn enillydd priodol iawn. Tynnwyd y tocyn buddugol gan y Parch. Sara Roberts yng ngwasanaeth Ionawr 25ain, sef ar Ddiwrnod Santes Dwynwen. Diolch i bawb o'r eglwys, o'r eglwysi eraill a chefnogwyr o'r ardal a brynodd docyn.

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai**
*Ar y Sul* – Mae gwasanaethau St. Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.
*Ar Ddydd Mercher* – Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch. Ddr. Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248 36152 neu gareth.lloyd@cinw.org.uk ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch. Sara Roberts, SaraRoberts@cinw.org.uk.

# YSGOL LLANDYGAI

Mi gychwynnodd tymor newydd 2026 gydag eira, a threuliwyd diwrnod cyntaf y tymor adref! Ond braf oedd bod yn ôl gyda'n gilydd yn yr ysgol y diwrnod canlynol.

**Dosbarth Gwawr**
Mae disgyblion Dosbarth Gwawr wedi bod yn meddwl am fwyd picnic wrth ddringo mynydd.

Buont yn brysur yn dysgu cyfarwyddiadau gwneud brechdan jam a mwynhau yn fawr y cyfle i wneud brechdan eu hunain.







Y rhan gorau wrth gwrs oedd cael bwyta eu brechdan – pawb yn mwynhau mewn distawrwydd!

Buom yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen trwy wrando ar y stori, dysgu cân a chreu calonau gyda Lego – gwaith tîm yn creu 66 o galonau amrywiol lliwgar.

Ddiwedd y mis, bu'r disgyblion ym Mhontio yn gwylio perfformiad 'Biwti a Brogs' a phawb wedi mwynhau yn fawr.

**Dosbarth Awel**
Tro Dosbarth Awel ydi hi'r tymor yma i fynd am wersi nofio. Yn y dosbarth, maent wedi bod yn dysgu llawer iawn o ffeithiau am Everest trwy waith ymchwil ac wedi bod yn clywed hanesion y bobl ddaru lwyddo i gyrraedd copa Everest gyntaf. Maent hefyd wedi bod yn ymchwilio i wahanol ddeunyddiau er mwyn darganfod y deunydd gorau ar gyfer côt law sydd mor bwysig wrth ddringo mynyddoedd Cymru.

**Dosbarth Tirion**
Mae'r dosbarth wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil am rymoedd. Mae criw Blwyddyn 5 wedi cychwyn ar eu sesiynnau Ysgol Goedwig ac mae'r tywydd wedi bod yn ffafriol hyd yma gyda phawb yn mwynhau'r gweithgareddau amrywiol o adeiladu den, creu siglen, creu gêm a gwaith celf naturiol. Cafodd y dosbarth hefyd fynd i Pontio i weld sioe 'Matilda' gan Ysgol Tryfan gan fwynhau yn fawr y perfformiad. Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Tryfan a'r hyfforddwyr am bnawn gwych o adloniant.

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Brysiwch wella**
Gobeithio bod Rex Humphreys-Jones, Rallt Isaf, yn cryfhau wedi llawdriniaeth ddiweddar. Dymuniadau gorau i ti Rex.

**Caban Gerlan**
Erbyn hyn, 'rydym wedi derbyn drysau a ffenestri newydd yn y neuadd - diolch i Ffenestri Cymru am eu gosod a'r nawdd SPF am ei ariannu.

I'r sawl sydd wedi defnyddio'r neuadd dros y blynyddoedd, mi gofiwch chi'r hen ddrws ffrynt o bren trwm oedd yn anodd ei gau. Mae cael drws ffrynt newydd, drws tân a drws i ystafell y boilar wedi gwneud gymaint o wahaniaeth.

**Gweithdy Gwnïo**
Trefnodd Caffi Trwsio gweithdy gwnïo yn y neuadd ar y 18fed o Ionawr. 'Roedd y gweithdy'n llawn a phawb wedi gadael efo bag newydd ac yn teimlo'n falch iawn o'u hunain. Diolch i Cêt a Ruth am drefnu'r sesiwn, ac i Partneriaeth Ogwen am eu help yn trefnu a darparu rhai o'r peiriannau gwnïo.

**Grŵp Gwnïo**
Gan fod y 2 weithdy gwnïo diweddar wedi bod mor boblogaidd, mae grŵp gwnïo newydd wedi ei sefydlu'n Y Caban ac wedi dechrau cyfarfod ar y dydd Llun olaf pob mis rhwng 6.30 ac 8.30. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwnïo o unrhyw fath neu'n meddwl dechrau gwnïo yna dewch draw am baned a sgwrs. Mae'n ofod cyfeillgar i gael syniadau, dysgu sgiliau newydd a chael chydig o help ac ysbrydoliaeth os oes angen. Bydd y grŵp nesaf yn cael ei gynnal dydd Llun y 23ain o Chwefror. Os 'da chi awydd rhoi tro ar wnïo a dim efo peiriant, cofiwch fod modd benthyg peiriant o Lyfrgell Petha Pesda trwy archebu ar www.pethaupesda.myturn.com/library/

**Grŵp Gweu**
Mae sawl un o'r grŵp gwnïo hefyd efo diddordeb mewn gweu. Un o'r rhain ydi Angie Gun. Mae Angie'n dod o'r Alban ac wedi ymgartrefu'n Gerlan ers sawl blwyddyn bellach ac wedi dysgu Cymraeg yn rhugl. Mae Angie'n garedig iawn wedi gofyn am gynnal grŵp yn y Caban pob mis gan gynnig ei sgiliau a diddordeb mewn gweu i helpu a chefnogi eraill. Ar hyn o bryd, y bwriad ydi cynnal grŵp gweu a phwytho ar yr 2ail dydd Llun o bob mis. Bydd y cyntaf yn cael ei gynnal dydd Llun y 9fed o Chwefror yn Y Caban rhwng 6.30 ac 8.30 a'r nesaf wedyn yr un amser ar ddydd Llun y 9fed o Fawrth. Croeso i ddechreuwyr a rhai mwy profiadol. Bydd yn ofod gwych i gymdeithasu hefyd.

**Logo Newydd**
Diolch i gwmni Gringo a phawb wnaeth helpu efo syniadau ar gyfer dyluniad logo newydd Y Caban. Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r mynyddoedd lleol ac hefyd siâp tu blaen y neuadd.

**Cydymdeimlo**
Ychydig ddyddiau wedi'r Nadolig, bu farw Gwyndaf Roberts, 7 Ffordd Gerlan, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd yn 69 mlwydd oed.

Priod ffyddlon y diweddar Angela a Rhian, tad addfwyn John Gwyn, Steven, Emily, Tom a Mared, a thaid balch Cai, Nia, Ela, Mili, Matti, Cadi, Travis, Solomon a Lotti.

'Roedd Gwyndaf yn gymeriad tawel ac annwyl a bu'n brwydo'n ddewr efo'i iechyd bregus ers sawl blwyddyn.

Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei deulu a'i ffrindiau.

## Ionawr Gwyn

Daeth cnwd da o eira annisgwyl ddechrau'r mis gyda sawl un yn cael gwyliau estynedig o'r ysgol ac amser i fwynhau bod allan yn yr awyr agored a swatio yn y tŷ.

Dyma ychydig o luniau o Gerlan gan gynnwys draig eira a godwyd wrth Bont Waen.





**Caffi Trwsio**
Ar y 25ain o Ionawr, cynhaliwyd Caffi Trwsio cyntaf 2026. Cafodd sawl peth ei drwsio yn cynnwys côt, trowsus, strimar a miniwr pensil trydan.

Da ni'n hollol ddibynnol ar wirfoddolwyr ac felly'n falch iawn o gael croesawu 3 gwirfoddolwr newydd i'r caffi. Mae Siôn Griffiths a Mabon efo diddordeb mewn technoleg a offer trydanol tra fod Eli Ellis-Williams yn arbennig am wnïo.

Bydd y caffi nesaf ar ddydd Sul yr 22ain o Chwefror rhwng 11 ac 1.

Does 'na ddim rhaid i chi ddod a dim byd i'w drwsio – croeso i chi alw mewn am baned a sgwrs.

Os oes gennych chi rywbeth sydd wedi torri – dewch â fo draw efo chi i weld os fedrwn ni ei drwsio. Bydd yn helpu'r blaned a'ch poced – beth sydd 'na i'w golli?

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Llongyfarchiadau!**
Braf yw cael dechrau'r golofn ar nodyn hapus y mis yma. Pleser yw llongyfarch Mrs. Meira Jones, Glenlyn, Bron y Waun, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 97 ar Ionawr 23. Ymlaen am y 100 rŵan, Meira!

**Dathlu canmlwyddiant y Neuadd**
Fel y soniwyd yn rhifyn Rhagfyr mae'r Neuadd Bentref yn dathlu ei phen-blwydd yn gant oed eleni ac mae cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu yn y Neuadd ar nos Iau, Chwefror 26, er mwyn i gymaint o bentrefwyr ag sy'n bosib' fedru dod draw i gynnig eu syniadau a'u hawgrymiadau am ddigwyddiadau i ddathlu'r achlysur. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 7. Dewch yn llu! Ymhlith y syniadau sydd wedi eu crybwyll yn barod mae arddangosfa luniau, gìg a dathliad arbennig ar gyfer plant y pentref.

**Rhaglen llawn amrywiaeth**
Yn y cyfamser mae rhaglen wythnosol y Neuadd mor llawn ac amrywiol ag erioed. Ac fel yr oedd y Llais yn mynd i'r Wasg cafwyd gwybod bod Sesiwn Profiad Disco Ffitrwydd ar y gweill ar gyfer nos Sadwrn, Chwefror 21, rhwng 7 a 9 o'r gloch. Mae'r DJ, Louisa Diamond, yn argymell bod pawb sy'n mynychu'n gwisgo dillad cyfforddus ac yn dod â dŵr efo nhw. Bydd gofyn i oedolion hebrwng unrhyw blant sydd am ddod. Pris y tocyn fydd £5 ac mae croeso i bawb.

**Clwb Ieuenctid**
Ailgychwynnodd y Clwb Ieuenctid, sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, yn ystod y gwanwyn y llynedd. Mae ar agor i blant uwchradd rhwng 11 ac 16 yn y Neuadd ar nosweithiau Mawrth rhwng 7.15 ac 8.45p.m. Yn anffodus, mae'r niferoedd ar i lawr ar hyn o bryd ac yn ôl ein cynghorydd lleol, Elwyn Jones, mae peryg' gwirioneddol y bydd yn rhaid dirwyn y tymor i ben yn fuan os na fydd cynnydd yn y nifer sy'n mynychu.

"Mae'n gyfle gwych i ieuenctid y pentre, sydd yn mynychu gwahanol ysgolion uwchradd yn yr ardal, gyfarfod a chymdeithasu a mwynhau rhaglen amrywiol o weithgareddau gan gynnwys coginio, gwaith crefft, tripiau neu ymweliadau â chlybiau cyffelyb," meddai.

"Os ydi'r amser neu'r noson yn anghyfleus gadewch inni wybod fel y medrwn ni ystyried a oes posib' addasu," ychwanegodd.

**Capel Shiloh Newydd**
Ar ôl egwyl yn Ionawr a Chwefror, bydd y gwasanaethau'n ailddechrau ddechrau Mawrth yn y Neuadd am 10 o'r gloch y bore. Dyma fanylion gwasanaethau hanner cyntaf y mis:
**Mawrth 1**: Parch Gwyndaf Jones
**Mawrth 8**: Parch John Gwilym Jones
**Mawrth 15**: Dr Huw Tegid Roberts
Croeso cynnes iawn i bawb.



### Serennu yn y treialon

Mae Iwan Griffith, Castell, yn prysur greu enw iddo'i hun yn y maes treialon cŵn defaid. Cafodd gryn lwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Un o'r uchafbwyntiau hyd yma fu ennill cystadleuaeth Ymdrinwyr Ifanc yn y Sioe Frenhinol gydag Eglwys Cap yn 2024 ac yn fwy diweddar daeth yn ail yn rownd derfynol Cystadleuaeth Dosbarth Meithrin (cŵn ifanc) Gogledd Cymru gyda Castell Floss. O ganlyniad i'r llwyddiant hwnnw enillodd Iwan ei le yn nhîm Gogledd Cymru a chael y cyfle i gystadlu yn rownd derfynol Cymru Gyfan yn Llandrindod fis Rhagfyr diwethaf.

Mae'n debyg ei fod yn dilyn ôl troed ei hen daid a oedd hefyd yn ymddiddori yn y maes ac yn cystadlu mewn treialon yn ei ddydd. Pob dymuniad da, Iwan, wrth iti fwrw 'mlaen i gystadlu yn 2026. Gobeithio y byddi di'n mynd o nerth i nerth!

## YSGOL RHIWLAS

**Cydymdeimlo**
Fel ysgol rydym yn cydymdeimlo gyda Miss Williams, athrawes y Cyfnod Sylfaen, yn dilyn ei phrofedigaeth ddiweddar.

**Pobl sydd yn helpu**
Thema Cyfnod Allweddol 1 am y tymor yma yw 'pobl sydd yn helpu'. Mae'r plant wedi bod yn dysgu am Florence Nightingale, ac yn sgil hyn wedi creu lampau papur gyda Mrs Rowlands – gan fod Florence Nightingale yn cael ei hadnabod fel 'the lady with the lamp'. Mae'r lampau yn werth eu gweld! Gyda Mrs Alty maent wedi bod yn dysgu am y deintydd.

**Hedfan**
hema Cyfnod Allweddol 2 tymor yma ydi hedfan . Mae'r plant wrth eu boddau yn dysgu am y 'Red Arrows', y brodyr Wright, a rôl awyrennau yn ystod yr ymosodiad ar Pearl Harbour yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'r disgyblion wedi cael lot o hwyl wrth greu awyrennau papur. Credwch neu beidio gallant wneud i'r awyrennau papur fynd i'r chwith, i'r dde, ac i fyny ac i lawr.

**Dathliad Santes Dwynwen Ysgol Dyffryn Ogwen**
Yn ddiweddar cafodd disgyblion blwyddyn 1,2 a 3 fynd am y diwrnod i Ysgol Dyffryn Ogwen i ddathlu Santes Dwynwen. Cawsant lawer o hwyl yn ystod disco 'zumba', a gwneud llwyau caru allan o glai. Uchafbwynt y diwrnod oedd cael cinio yn ffreutur yr ysgol!

**Sesiynau pêl-droed**
Braf iawn yw croesawu Gethin Jones o glwb pêl-droed Y Bala yn ôl i'r ysgol. Mae Gethin yn arwain sesiynau pêl-droed bob prynhawn Llun gyda disgyblion cyfnod allweddol 2, ac mae'r plant i gyd yn mwynhau yn fawr iawn.

**Clwb ar ôl ysgol yr Urdd**
Mae'r Urdd yn cynnal clwb ar ôl ysgol i ddisgyblion o'r dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6. Mae Fflur yn ymweld â'r ysgol bob dydd Mawrth ac yn canolbwyntio ar wahanol chwaraeon bob wythnos. Pêl rhwyd oedd camp yr wythnos gyntaf; yn ystod yr ail sesiwn gwella sgiliau pêl-droed oedd y disgyblion, ac yna pêl-fasged yn ystod y drydedd wythnos. Tybed beth fydd y campau dros y tair wythnos nesaf?

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

A dyma ni yn fis Chwefror wedi cyrraedd "Y mis bach a'r mis du." Dyma ddau ymadrodd ynglyn â'r tywydd a sut y byddai amaethwyr yn gweld patrwm y flwyddyn i ddod.
Chwefror teg yn difetha'r unarddeg.
Ni fyn Mawth i Chwefror dyfu.

## Ceg

Mae gynnon ni lwyth o ddywediadau sy'n cynnwys 'ceg', a dydy hynny ddim yn syndod gan fod ein cegau'n go brysur drwy'r dydd bob dydd am oes! Dyma i chi rai:

Mi ddywedwn ni fod rhywun yn '**ceg fawr**' os ydy hi neu fo yn hoff o frolio'i hun, ac yn swnllyd – "Tydi o'n ceg fawr. Mae o 'fath â drws popty!"

Rhywun sy'n '**geg i gyd**' sy'n gwneud dim ond siarad ('siarad mawr') yn lle gweithredu.

'**Hen geg**' ydy rhywun sy'n methu cadw cyfrinach ac yn sâl isio dweud wrth rywun arall yr hyn mae o neu hi wedi ei glywed – "Paid â deud wrth honna. Hen geg 'di hi."

Rhoi '**llond ceg**' i rywun ydy ei ffraeo'n arw – "Mi ges i lond ceg gan Mam am ddeud celwydd." Ffordd y ddweud wrth rywun am 'ei chau hi' ydi '**cau dy geg**'.

Pan fydd rhywun yn '**cega**' bydd o neu hi yn gweiddi ffraeo'n ddiddiwedd – "Glywist ti'r rheina'n cega yn stryd neithiwr?" Bydd rhywun yn gwneud '**ceg gam**' pan fydd wedi pwdu. Gwneud '**ceg hyll'** ydy dangos siom ac anghymeradwyaeth. Pan fyddwn ni wedi cael braw neu ein synnu gan rywbeth, byddwn yn '**gegrwth**' ('**yn gegagored**').

Hefyd, bydd 'ceg' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio agoriad, fel '**ceg afon'**, '**ceg ogof**', '**ceg cwm'.**

**i lawr y lôn goch.** Y llwnc ydy'r 'lôn goch', ac mae'r dywediad yn cael ei arfer gan rieni wrth y bwrdd bwyd wrth annog plant bach i fwyta rhywbeth neu'i gilydd – " 'Na hogyn da. I lawr y lôn goch â fo."

**digon o las i 'neud trywsus llongwr.** Dywediad am y tywydd ydy hwn, pan fydd darn bychan o awyr las ar ddiwrnod dwl.

**dim yn le i fagu gwaed.** Dyma ddywediad pan fydd hi'n ofnadwy o oer – "Mae hi'n gythreulig o oer yma. Di o ddim yn le i fagu gwaed."

**trybeilig.** Ystyr hwn ydy 'ofnadwy', 'mawr iawn' ac 'eithriadol' – "Mae hi'n drybeilig o boeth yma!"

**un del/ddel.** Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio mewn dwy ffordd. Un ffordd ydy dotio at fabi neu blentyn bach – "Tydi o'n un del!" Ffordd arall ydy disgrifio rhywun sydd yn gwneud rhywbeth ffôl – "Doedd o'n un del wedi colli ei bres i gyd ar geffyla'."

**lardio.** Gweithio'n caled – "Roedd y belwrs bach yn lardio yn y chwarel am gyflog mwnci."

**lordio.** Bod yn hunan-bwysig ac ymwthgar ydy hyn - tra-arglwyddiaethu dros eraill – "Mae o'n ei lordio hi o gwmpas y lle 'ma!"

**ffidan.** Pryd o fwyd (o'r Saesneg 'feed') – "Ew, mi gawson ni ffidan dda yn y caffi 'na."

**gwnedyn.** 'Gwyniedyn'. Dyma'r enw lleol am siwin neu sewin – pysgodyn sy'n perthyn i deulu'r eog, ac sy'n dŵad o'r môr i fyny'r afonydd i gladdu (dodwy wyau). 'Gwnada' (gwyniadau) ddwedwn ni am fwy nag un.



**sgram.** Mae hwn yn degyg i 'ffidan' – "Awn i allan am sgram wsnos nesa'."

**be sy 'mlaen?** Ffordd arall o ofyn 'Be' sy'n digwydd?' ydy hwn – "Be sy mlaen yn y neuadd heno?"; "Be cythral sy 'mlaen yn fa'ma? Dath chi'n dal i ffraeo?"

**dipyn o un.** Cymeriad go amheus mewn rhyw ffordd neu'i gilydd – "Gwylia di dy hun efo hon'na. Mae hi'n dipyn o un."

**amen.** "Roedd hi'n amen arni hi wedyn." Doedd dim troi yn ôl, roedd ar ben arni. Amen yw'r gair olaf yn y Beibl.
Mae cof gennyf o ddweud erstalwm – Amen dyn pren, hitio mochyn ar 'i ben!

**y frân wen.** Pan fyddai oedolyn yn dweud y drefn plentyn am wneud drygau a'r plentyn yn gofyn pwy fyddai wedi achwyn arno neu arni, yr ateb yn aml fyddai "Y frân wen."

**cael a chael.** "Di ond cael a chael gafodd o i ddal y trên" hynny ydy dim amser wrth gefn.

**tatws llaeth.** Cofiaf ers talwm i ddilledyn arbennig ddod yn ffasiwn ac i lawer o genod ifanc ei wisgo a rhywun yn dweud. "Roedda nhw fel tatws llaeth yn mhobman."

Apêl unwaith eto i chi gysylltu. Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN maryeds@hotmail.co.uk neu 07443047642


Ffrindia' Newydd

**Ydych chi'n chwilio am gyfle gwirfoddoli ystyrlon?**

Oes gennych chi awr neu ddwy i'w sbario bob wythnos i wneud gwir wahaniaeth yn eich cymuned?

Mae prosiect cyfeillio *Ffrindia' Newydd* eisiau gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi unigolion dros 50 oed sydd angen cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:
beca.gruffydd@mantellgwynedd.com
01286 672 626 | www.mantellgwynedd.com

Neu sganiwch y cod QR i gofrestru:



# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Chwefror 24
Mawrth 10, 24 a 31

am 6.45yh.
Croeso i bawb

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

Chwefror 23
Mawrth 9 a 23
Croeso cynnes i bawb

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Yn festri Capel Jerusalem, Bethesda

**Nos Lun, Mawrth 9fed, am 7.00 o'r gloch**

**Lowri Wiliams**

*Cefnogwyr y Ddeiseb Heddwch ym Methesda*

(Darlith Goffa Rhiannon Rowlands)

**Wyneb yn wyneb: Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com**

**Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo esme@ogwen.org**

**Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf os gwelwch yn dda.**

FFI AM Y CWRS
Oedolion £10.00.
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol – £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy:
BACS: 40-16-02 41386212,
neu gydag arian parod ar y noson

## Caffi Coed y Brenin

### Bore Coffi Gŵyl Ddewi

Sadwrn, 28 Chwefror
10.00 – 12.00

Mynediad : £1.00
Trefnir gan
Blaid Cymru
D. Ogwen

FESTRI CARMEL
LLANLLECHID

## Te Bach

Dydd Llun
16 Mawrth
2.30 – 4.00yp

Croeso cynnes i bawb


# Y CYMRO

## Tanysgrifiwch i'r Cymro

Tanysgrifiwch i dderbyn papur Y Cymro drwy'r post bob mis am £39 y flwyddyn neu fel PDF drwy e-bost bob mis am £15 y flwyddyn.

Cysylltwch gyda
**tanysgrifio@ycymro.cymru**
i drefnu





# Ynni Ogwen

## Apêl am wirfoddolwyr

**Fedrwch chi helpu Ynni Ogwen?**

Rydym yn chwilio am unigolion i fod ar y rota, i gadw llygad ar gynhyrchiant y tyrbin a sgubo dail oddi ar y sgriniau yn yr afon.

Dewch i gyfarfod y tîm o wirfoddolwyr i ddysgu am y gwaith a darganfod mwy.

**18:30 Nos Iau, 26 Chwefror 2026**
**Clwb Rygbi Bethesda**

**Am fwy o wybodaeth:**
**ynni@ogwen.org**
**07767 473209**

# YSGOL LLANLLECHID

Bu disgyblion Blwyddyn 2 a 3 Ysgol Dyffryn Ogwen yn mwynhau diwrnod llawn creadigrwydd wrth ddathlu **Dydd Santes Dwynwen**, nawddsant cariad Cymru.

Bu cyfle i'r disgyblion gymryd rhan mewn sesiwn swmba dan arweiniad Mrs Emma Williams, Jambori dan ofal Catrin Angharad Jones, a gweithdy creu llwyau caru gydag Elin Huws Jones. Roedd y plant wrth eu bodd ac yn gwerthfawrogi pob eiliad o'r profiad. Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd mwynhau cinio blasus a baratowyd yn ofalus gan staff y gegin. Diolch o galon i bawb am y croeso cynnes, ac yn arbennig i Ms Catrin Heledd am drefnu.




**Archifdy**
Cafodd disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 brofiad cofiadwy wrth i Gwyn Ellis o Archifdy Gwynedd ymweld â'r ysgol i drafod datblygiad peiriannau dros y blynyddoedd**.**

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y plant gyfle i weld a thrin amrywiaeth o beiriannau hanesyddol, gan gynnwys offer a oedd yn cael eu defnyddio blynyddoedd yn ôl cyn dyfodiad technoleg fodern. Esboniodd Gwyn Ellis mai pobl oedd y peiriannau cyntaf cyn i beiriannau gael eu dyfeisio. Aeth ymlaen i gyflwyno sut roedd y peiriannau'n gweithio a sut mae bywyd bob dydd wedi newid dros y blynyddoedd oherwydd y peiriannau hyn.

Roedd y disgyblion yn llawn brwdfrydedd ac yn awyddus i ofyn cwestiynau. Dangos y disgyblion diddordeb mawr mewn hanes lleol ac effaith peiriannau yn y Chwarel.

**Pêl-rwyd Urdd**
Mae'n bleser llongyfarch dau dîm pêl-rwyd cymysg Blwyddyn 5 a 6 am eu hymdrech, eu brwdfrydedd a'u perfformiadau ardderchog o fewn cystadleuaeth pêl-rwyd cymysg yr Urdd yng nghanolfan Brailsford yn ddiweddar. Bu'r ddau dîm yn chwarae'n wych drwy gydol y gystadleuaeth gan arddangos sgiliau pêl rhagorol. Llwyddodd un o'n timau i gyrraedd y rownd gynderfynol - mae hynny'n dipyn o gamp! Braf oedd gweld bechgyn a merched yn cydweithio mor effeithiol, gan annog ei gilydd i chwarae fel un tîm cryf. Da iawn i bawb a gymerodd ran - rydym yn falch iawn ohonoch chi! Diolch unwaith eto i staff yr Urdd ac i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith caled.

**Llwyddiant Ysbrydoledig i'n Disgyblion yn y Byd Criced**
Rydym yn hynod falch o ddathlu llwyddiant arbennig Amos Owen o flwyddyn 5, sydd wedi'i ddewis i ymuno â Rhaglen Ymgysylltu Gynnar Bechgyn Morgannwg (dan 10) ar gyfer tymor 2026. Mae cael eich dewis ar gyfer y rhaglen hon yn anrhydedd mawr. Bydd Amos yn cymryd rhan yn rhaglen hyfforddi'r gaeaf a'r haf drwy gydol 2026, gyda'r cyfle i symud ymlaen yn y dyfodol i raglenni oedran uwch Morgannwg.

Yn ogystal â'r llwyddiant hwn, mae'r ysgol hefyd yn dymuno llongyfarch Hari Herbert ac Efan Lloyd o flwyddyn 5, sydd ill dau wedi cael eu dewis i ymuno â thîm Criced Gogledd Cymru dan 10 oed. Mae'r llwyddiannau hyn yn dyst i waith caled, ymrwymiad ac angerdd y plant dros griced, ac maent yn ysbrydoliaeth wirioneddol i'w cyfoedion. Llongyfarchiadau mawr iddynt oll gan yr ysgol a'r gymuned leol!

**Biwti a Brogs**
Cafodd y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 fore bendigedig yng nghwmni dywysoges a'r broga yn y sioe 'Biwti a Brogs' ym Mhontio, Bangor. Roedden nhw wrth eu bodd gyda'r gwisgoedd lliwgar, y canu a'r hwyl. Diolch i Brogi a'r dywysoges perffaith am y sioe!

**Cydymdeimlo**
Hoffai Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllechid estyn ein cydymdeimlad at deulu a ffrindiau'r diweddar Mr Fred Buckley. Roedd Fred o hyd yn barod i'n helpu gyda'r Bingo yn y Clwb Criced. Fe fydd yn golled fawr i'r gymdeithas.




STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
**Ebost:** stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# YSGOL LLANLLECHID

**Blwyddyn Newydd Dda!**
Mae'n fraint fawr gennyf gyflwyno fy hun fel Pennaeth Ysgol Llanllechid. Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio mewn partneriaeth agos gyda phlant, teuluoedd a phartneriaid lleol.

Rwyf am sicrhau bod yr ysgol yn parhau i fod wrth galon y gymuned, yn fan lle mae cydweithio, parch a balchder lleol yn gryf. Wrth i ni agosáu at ddiwedd y prosiect adeiladu newydd, mae'n gyfnod cyffrous iawn i'r ysgol, gyda chyfleoedd newydd i greu amgylcheddau dysgu modern, diogel ac ysbrydoledig i'n plant.

Mae Cymreictod a'r iaith Gymraeg wrth wraidd popeth a wnawn yn Ysgol Llanllechid. Rydym yn falch o feithrin diwylliant lle mae dysgu yn hwyl, heriol a chynhwysol, gan sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn derbyn y cyfleoedd gorau posibl i lwyddo.

Diolchaf i bawb am y croeso cynnes yn fy mis cyntaf – y staff, rhieni, llywodraethwyr ac wrth gwrs y plant! Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ddod i adnabod y gymuned leol yn well dros y misoedd nesaf, ac at weithio gyda'n gilydd er lles ein plant a'n cymuned.

*Gethin Môn Jones*

**Dosbarth Meithrin**
Mae'r dosbarth Meithrin wedi bod yn brysur yn dysgu am anifeiliaid yr arctig dros y bythefnos ddiwethaf, ac maent yn bwriadu adeiladu iglw gyda photeli llefrith. Os oes gennych chi boteli llefrith plastig yn eich biniau ailgylchu, plis dewch a nhw draw i ni!


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.



Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

*Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?*

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

ANGLADDAU enfys FUNERALS



Trefnwyr angladdau annibynnol yn cefnogi teuluoedd ar draws Gogledd Cymru i greu angladdau traddodiadol, gwyrdd, unigryw a phwrpasol.
Swyddfeydd ym Mangor a Bethesda.
Gwasanaeth amlosgiad uniongyrchol ar gael gydag arch, amlosgiad lleol, dychwelyd llwch a ffioedd proffesiynol wedi'u cynnwys £1,375
133 Stryd Fawr, Bangor • 57 Stryd Fawr, Bethesda
01248 351631 post@enfysfunerals.co.uk

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com



**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Mrs. Margaret Bowen Rees yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd ym Mangor sef Mr. John Wynn Meredith. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Cofion**

Anfonwn ein dymuniadau gorau at rai nad ydynt mewn llawer o hwyl ar hyn o bryd. Mae Mr. Gwilym Evans yn disgwyl am lawdriniaeth i'w ffêr, a rhai o ferched y Clwb Gwau wedi bod yn sâl am sbel hir.

Mae Mrs. Glenda Ellis i mewn yn Ysbyty Eryri, Mrs. Beryl Brown yn aros ym Mhlas Ogwen a Mrs. Grace Sewell yn aros yn ei chartref.

**Yr Ysgol Sul**

Wedi ail ddechrau ar ôl gwyliau'r Nadolig, mae'r plant yn gwneud ymdrech i gofio dweud 'Diolch'. Diolch i Dduw am rodd y plentyn Iesu i'r byd, a diolch am bopeth a gawson nhw dros y gwyliau. Yn y llun, gwelwn y plantos yn darlunio eu hanrhegion Nadolig.

Dysgai'r plant hefyd fod eisiau inni fod yn garedig a gadael bwyd i'r adar gwylltion yn ystod y gaeaf oer a llwm.

Adar bach y gaeaf oer
Yn yr eira gwyn
Rhaid eu bwydo er mwyn Duw
Nes daw haul ar fryn.

Dyma'r plant yn diolch i Siôn Corn drwy wneud lluniau o'r anrhegion a gawsant ganddo.



# Clwb Hanes Rachub

Yn wreiddiol, Mrs. Helen Holland oedd yn fod i annerch y Clwb Hanes ar 28ain o fis Ionawr, ond gyda thristwch mawr, daeth y newyddion am farwolaeth mam Helen lai na phythefnos cyn hynny. Rydym ni fel aelodau'r Clwb yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf yn ogystal â'n cofion cynnes atat, Helen.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr. Dafydd Fôn am gamu i'r adwy mor ddidrafferth. Roedd ganddo sgwrs wych am fywyd yn yr ardal yn y 19eg ganrif.

Gwyddai pawb eisoes am y gymdeithas glos, chwarelyddol, ddiwylliannol a chrefyddol a fodolai ym Methesda yn y cyfnod hwnnw, gan fod llawer iawn o gofnodion yn bodoli gan gymdeithasau'r capeli a.y.b., ond faint o gofnodi a fu ar hanesion 'yr ochr arall' fel petai? Faint sy'n gwybod am fywyd yn y tafarndai, arferion drygionus, afiechydon a chyflwr cartrefi'r trigolion?

Oherwydd datblygiad y Chwarel, tyfodd ardal Bethesda'n anhygoel o gyflym, nes erbyn 1881, roedd dros 9 mil o bobol yn byw yma. Cymysgedd o bobol oedd y rhain, a ddeuai o ardaloedd lleol yn ogystal ag o bobman ym Mhrydain ac Iwerddon gyda'r gobaith o gael gwaith, a fyddai'n arwain tuag at fywyd gwell.

Ymysg y rhain, roedd gweithwyr corfforol, masnachwyr, crefftwyr, twrneiod a phobl o bob math o alwedigaethau. Roedd y gweithwyr 'Dosbarth Canol' yn gallu fforddio adeiladu tai eu hunain, ond roedd y tlodion niferus yn byw mewn amodau dychrynllyd iawn. Y rheswm am hyn oedd nad oedd pentref Bethesda'n barod am y twf aruthrol yn y boblogaeth leol, felly roedd y mewnfudwyr i'r ardal yn byw mewn pob math o adeiladau, o selerydd llaith a thywyll i adeiladau fferm, tai gwael a gorlawn, a'r rheiny heb le chwech!

Canlyniad hyn, wrth gwrs oedd bod salwch yn cael ei achosi gan effaith carthion dynol yn yr afonydd ac ar y strydoedd. Byddai cigyddion yn taflu gweddillion gwartheg a moch i'r afon, ac roedd yr ardal yn ddifrifol o ddrewllyd! Ac ar ben hynny, roedd carthion anifeiliaid yn broblem - roedd ceffylau ymhobman a nifer o bobol yn cadw moch oherwydd eu bod wedi arfer gwneud hynny yn eu cartrefi blaenorol. Ond daeth y '*Bethesda Improvement Act*' i fodolaeth ym 1854 er mwyn sicrhau fod tai


newydd yn cael eu hadeiladu gyda systemau carthffosiaeth ddigonol, ond mae'n debyg fod y gwaith wedi cymryd amser hir iawn i'w gyflawni.

Roedd manylder yr ymchwil yma'n ein galluogi i gael rhyw flas gwahanol ar hanes ein hardal yn y cyfnod dan sylw. Yn anffodus, does dim lle yma i sôn am dafarn answyddogol 'Y Nefoedd Fach' na'r hyn oedd yn digwydd ynddi; dim lle chwaith i sôn am gymeriadau fel Pegi Rhys, 'Beti Ffortiwn' na defod echrydus 'y Ceffyl Pren'. Mi fydd y rhain yn siŵr o ymddangos ar wefan Dei Fôn cyn bo hir!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, (Chwefror 25) pan fydd y ffotograffydd Dylan Arnold yn cyflwyno 'Cymru Gudd – Ffotograffau a Hanesion'.



# CROESAIR



**ATEBION CROESAIR IONAWR 2026**
**AR DRAWS** 1 Peryglus, 5 Gallu, 7 Ynot, 8 Meirioli, 9 Agorwn, 12 St Gofan, 15 Casineb, 19 Trysor, 21 Haelioni, 22 Grid, 23 Un Un, 24 Iachawdwr

**I LAWR** 1 Pwysau, 2 Ystyr, 3 Lemo/wn, 4 Seiont, 5 Gwisgo, 6 Uniawn, 10 Owns, 11 Waun, 12 SWB, 13 Gwir, 14 Flas, 15 Culhau 16 I Felin, 17 Eironi, 18 Bradwr, 19 Trïwch, 20 Ysgaw

Dyma'r gwallau ddaeth i'r wyneb y tro yma. Yn lle'r ateb cywir'eironi' (17 I Lawr) cafwyd dau yn cynnig 'enwogi', ac un arall yn rhoi 'ethrodi'. Cafwyd un 'meiliori' ynlle 'meirioli' (8 Ar Draws), 'foes' yn lle 'flas' (14 I Lawr), ac yn anffodus roedd un cliw heb ei gwblhau gan un o'rffyddloniaid!

Y rhai anfonodd atebion hollol gywir oedd: Elsi Prytherch, Waen Wen; Huw Pritchard, Caerdydd; Rosemary Williams, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Rita Bullock, Doris Shaw, Anne Smith, Margaret Williams, Gwen a Bryn Evans, Janet Davies, Bethesda; John Ffrancon Griffith, Abergele; Gill King, Mynydd Llandygai; Iona Williams, Llanddulas; M. A. Jones, Rachub; Medi Michael, Bangor; Barbara Jones, Talybont; Judith Hughes, Llangoed; Huw a Gwenno, Gerlan.

Yr enw cyntaf allan o'r het i dderbyn y wobr oedd ymgais Elsi Prytherch, Erwau'r Gwynt, Waen Wen, Bangor, Gwynedd. Llongyfarchiadau i chi.

### AR DRAWS

1 Cyn bo hir efallai y clywch chi rywfaint o'r cloc yn tipian (3)
3 Go lew a gweddol (8)
8 " - - - - - - - nos, oleuni mwyn y nef, o arwain fi" '*CaneuonFfydd*' (7)
9 e.e. Morse Côd, e-bost neu delegram (5)
10 O! Dion, wnei di ddangos dy fod yn cytuno (5)
11 Mynd yn syth o lunio ychydig yn hyfryd a braf (7)
12 Rhoi cymorth wrth roi rhan o'r corff dan y baich (6)
14 Dychwelodd i'r lle greodd yn ddi-ddiwedd i gadw rhagmynd yn ddrwg (6)
18 Cig tun traddodiadol o'r Ail Ryfel Byd (4-3)
20 Mwy nag un math o'r mwyar (5)
22 I ddal llaeth yn ofalus yn rhan o Nant Peris ers talwm (5)
23 Dawn i altro ychydig ar y ffordd i ddigolledu (7)
24 Distawrwydd a thawelwch geiriol (8)
25 Arswyd a braw (3)

### I LAWR

1 A yw ein gwleidydd etholedig yn unben gormesol yn eiwlad ei hun (7)
2 Mor hir ag y pery (5)
3 CCC i Gesar! (7)
4 Ledio doeth wedi rhoi mil i ganu'r alaw soniarus (6)
5 Mae'r bardd R. Williams Parry yn ei soned enwog yn sônam y llwynog yn rhoi "dwy sefydlog fflam ei lygaid - - - - -" (5)
6 Dull o ffermio heb ddibynnu ar gemegau artiffisial (7)
7 Yn agos i'r gwaelod (4)
13 Genod taid (7)
15 Gwnaed yn lletach (7)
16 "Wylit waed pe gwelit hyn" Pwy ? *Gerallt Lloyd Owen* (7)
17 Dymunol a charedig; clên "- - - - - -" (1,5)
18 Tafarn "Rownd a Rownd" S4C (4)
19 Gwthio'r whilber i'r gogledd (5)
21 I daro'i weiarles a'i thiwnio cafwyd Caroline a Lwcsembwrg(5)

Atebion erbyn **6ed Mawrth, 2026** fan bellaf *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Chwefror', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD


**MODURDY FFRYDLAS**

**Profion M.O.T.**

**PERCHNOGION**
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com